


ECO'R WYDDFA

RHIF 42

TACHWEDD 1979

Pris: 12c

TALP O HANES YM MAWN Y LLYN



Yn ddiweddar, darganfuwyd cwch pren yng ngwely llyn Peris a dywed yr arbenigwyr y gall fod dros 300 mlwydd oed.

Daethpwyd o hyd i'r cwch, saith metr o hyd, mewn haen drwchus o fawn, a blygwyd ac a dorwyd dan bwysau'r llechi a ddefnyddir i lenwi ochrau'r llyn. 'Roedd mewn safle sy'n union o dan Gastell Dolbadarn.

Ar ôl clywed am y darganfyddiad daeth aelodau o ddau gorff sef Sefydliad Cymreig Hanes ac Archaeoleg y Môr ac Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd i godi'r cwch. 'Roeddynt yn gweithredu ar ran Amgueddfa Genedlaethol Cymru.

Nid ydynt yn gwbl bendant hyd yma i ba bwrpas y defnyddiwyd y cwch. Mae natur y gwaith coed a'r fframwaith yn tystio ei fod yn hen iawn — yn hynach na'r cwch llechi a ddarganfuwyd yn Llyn Padarn tua dwy flynedd yn ôl. Gwyddom bellach i'r math hwnnw o gwch diwydiannol gael ei ddefnyddio ym mlynnyddoedd cynnar Chwarel Dinorwig, sef rhwng 1794 a 1820.

Meddyliwyd y gallai cwch Peris fod yn gysylltiedig â mwynefeydd copr Glaslyn sydd rai canrifoedd yn hynach na'r chwareli llechi. 'Roedd cychod yn cael eu defnyddio i gludo'r mwyn copr yn gynnar yn y ddeunawfed ganrif (hanes Marged Ferch Ifan) hyd at ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Fodd bynnag, buasai copr wedi dangos ei ôl yn glir fel staen ar y coed, meddai'r arbenigwyr. Gan nad oes unrhyw dystiolaeth o hyn mae'n ymddangos nad cwch cludo copr ydoedd.

Yn ddiweddar mae'r arbenigwyr wedi darganfod mewn mannau yr hyn sy'n ymddangos fel ysgarthion anifeiliaid, efallai ceffylau, a bod rhain ar y cwch pan suddodd.

Y syniad ar hyn o bryd yw mai cwch fferm yn cael ei ddefnyddio gan ffermwr lleol i symud ei anifeiliaid ar hyd y llyn o borfeydd y tynydd i'r iseldir sydd yma. Ar y llaw arall, gall fod yn gwch fferi cedd yn teithio ar hyd y llynnoedd rhwng y porthladdoedd bychain yng Nghwm-y-glo a Nant Peris gan gario teithwyr a'i merlod i ac o waelod bwllch Llanberis.

Symudir y cwch mewn adrannau ac yn ystod y chwe mis nesaf fe'i cedwir mewn tanciau o ddŵr ffres. Yn ystod yr amser yma fe dynnir lluniau y planciau a'r fframwaith ac fe'u hastudir yn fanwl. Ar ôl hyn bydd y coed yn cael eu cludo yn ôl i Lanberis i'w trin â chemegau arbennig i'w cadw. Yna bwriedir ailadeiladu'r cwch yn ei ffurf wreiddiol a'i arddangos yn Amgueddfa'r Chwarel.

Mae'r gweithiwr a ddaeth o hyd i'r cwch yn dymuno bod yn anhysbys. Mawr yw ein diolch iddo. Bydd y darganfyddiad yn ychwanegu at ein gwybodaeth o hanes ein bro.

[Ein diolch i Olygydd Newyddion Cynllun Dinorwig am ganiatâd i ddefnyddio'r erthygl a'r llun a gyhoeddwyd yn rhifyn yr haf o'r papur]

Gweler tudalen 7 am y diweddaraf ynglŷn ag oed y cwch.



CYFNOD MWYA' CYFFROUS YR HOGIA

Bydd y misoedd nesaf yn fisoedd prysur a chyffrous iawn yn hanes Hogia'r Wyddfa. Mewn cyfnod o 4 mis byddant wedi ymddangos unwaith eto ar lwyfan yn eu pentref genedigol, torri record newydd, teithio i bellafodd byd, a gweld eu cyfres eu hunain yn cael ei darlledu ar y teledu.

Ar wahoddiad yr Hogia bydd un o bartïon merched mwyaf poblogaidd ac adnabyddus Cymru yn ymddangos gyda hwy yng Nghapel Coc', Llanberis. Bydd Côr Telyn Teilo a Hogia'r Wyddfa yn cynnal cyn ardd yng Nghapel Coch nos Sadwrn, Tachwedd 3. Arweinydd y noson fydd J.O. Roberts, yr actor enwog. Rhan o weithgareddau Pwyllgor Carnifal Llanberis fydd y cyngerdd yma. Dyma'r tro cyntaf i'r hogia ymddangos ers eu cyngerdd olaf o'u cyfnod cynnar.

RECORD NEWYDD

Bydd gan Hogia'r Wyddfa record newydd arall allan erbyn y Nadolig. 'Difyrur'r Amser' fydd y teitl a chynhwysir arni ganeuon gan y diweddar Ryan Davies a T. Gwynn Jones ymhlith rhai gan yr hogia eu hunain. Hon fydd eu chweched record hir i Gwmni Sain.

O LANBÊR I NIGERIA

Tra byddwn ni yng nghanol

gerwinder y gaeaf bydd yr hogia yn treulio wythnos ym mhoethder haul Nigeria. Gwahoddwyd hwy gan Gymdeithas y Cymmrodorion Nigeria i gynnal cyngherddau yn y wlad honno. Byddant yn cael y fraint o rannu llwyfan ag un o gorau mwyaf adnabyddus Nigeria — Cantorion Steve Rhodes. Daeth y côr yma yn gyntaf yn Eisteddfod Llangollen rai blynnyddoedd yn ôl.

RHAGLEN DELEDU

Bydd y BBC yn darlledu cyfres o raglenni gan Hogia'r Wyddfa yn ystod misoedd Tachwedd a Rhagfyr. Recordiwyd y rhaglenni yma yn Theatr Seilo yn ystod mis Mai diwethaf. Yn ymddangos gyda hwy ar eu rhaglenni fydd — Lea Owen, Rosalind, John Ogwen, Eleri Llwyd, Dafydd Iwan a'r Diliau.

Tipyn o raglen gan hogiau sydd wedi hanner ymdeol!

Teulu'n ffoi i ddiogelwch Eryri

Bydd Mrs Dilys Wyn Kisalu a'i theulu yn gweld bywyd yn llawer tawelach yn ei bro enedigol nag a oedd yng Nghampala. Bu'n byw yno, ym mhrifddinas gwlad Uganda, am bymtheng mlynedd. Ond ers y 5 o Hydref mae hi, ei phum merch a'i nith yn aros yn y ficerdy, sef hostel i'r digartref yn Neiniolen. Mae ei gŵr yn yr Almaen yn disgwyl triniaeth lawfeddygol.

Er ei bod eisoes wedi cael cyfweiliad ar y teledu ac wedi adrodd ei stori wrth ohebydd papur wythnosol Cymraeg, 'roedd Mrs Kisalu yn fwy na pharod i ddweud yr hanes unwaith yn rhagor wrth ddarllenwyr Eco'r Wyddfa.

Aeth Mrs Kisalu sy'n enedigol o Lanberis i Uganda am y tro cyntaf ym 1964. Meddyg yw ei gŵr ac 'roedd hithau yn brifathrawes ysgol feithrin. Dywedodd fod bywyd yn gymharol braf hyd at tua 1974. Ond o'r amser hwnnw ymlaen cafwyd cyfnod o ansicrwydd drwy'r wlad. Dyma amser teyrnasiad y Cadfridog Idi Amin. 'Roedd o ei hun yn ddrwgdybus

o bobl oedd wedi cael addysg a threiddiai hyn i fywyd bob dydd. Soniodd Mrs Kisalu am bobl genfigenus oedd yn barod i ddefnyddio unrhyw sefyllfa er mwyn "cael gwared" o rai unigolion. Yn wir, cafodd ei gŵr ei garcharu am bum niwrnod. Llwyddwyd i'w ryddhau, gyda chymorth cymydog a oedd hefyd yn swyddog yn y fyddin a hynny ar ôl pwysleisio rhesymau meddygol. Bu llawer unigolyn yn llai ffodus.

Yn wyneb hyn, dysgodd i gadw'n dawl ac i beidio â thynnu sylw ati hi ei hun mewn unrhyw fodd. Dysgodd hefyd ddod i

Parhad ar dudalen 12

ECO'R WYDDFA

RHIF 42 TACHWEDD 1979

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Nant Peris

Cyhoeddwyd gyda chymorth
Cymdeithas Gelfyddydau
Gogledd Cymru

SWYDDOGION A GOHEBWYR

**GOLYGYDD NEWYDDION CYFF-
REDINOL:** Twrog Jones, 23 Glan-
ffynnon, Llanrug (C'fon 4051)

GOLYGYDD ERTHYGLAU: Arwel
Jones, Gwên-y-Wawr, Llanrug (C'fon
3719)

GOLYGYDD NEWYDDION: Tony
Elliott, Crud y Wawr, Bryneglwyys,
Penisarwaun.

GOLYGYDD CHWARAEON: Dafydd
Evans, Sycharth, Penisarwaun.

TREFNYDD NEWYDDION
YSGOLION: Iwan Lloyd Williams,
Bryn Idris, Llanberis (Llanberis 515)

DYDDIADUR Y MIS: Miss Jane
Morris, Blodwel, Dôl Elidir, Llanberis
(Llanberis 220)

FFOTOGRAFFWYR: Ifan Parry,
Morwel, Ceunant. (Waurfawr 321)
Gwyndaf Jones, 60 Glanffynnon, Llan-
rug (C'fon 4669)

TREFNYDD HYSBYSEBION: John
Roberts, Bedw Gwynion, Llanrug.

TREFNYDD GWERTHIANT: Ian
Pierce, Swyn-yr-Awel, Llanrug (Caer-
narfon 3776).

TRYSORYDD: Gwyn Oliver Jones,
58 Pentre Helen, Deiniolen.

TREFNYDD GWERTHIANT POST :
Mrs. M. Evans, "Lloc", Llanrug.
(C'fon 3 227)

GOHEBWYR PENTREFI: Dyma'r
bobl i gysylltu â nhw yn eich ardaloedd

BETHEL: Geraint Elis, Sycharth,
(Portdinorwic 726)

BETWS GARMON: Mrs. Brenda Jones,
Bryn Tegid (Waurfawr 294)

BRYNREFAIL: D.G.Ellis, Gwledfa,
Brynrefail (Padarn 223)

CEUNANT: Ifan Parry, Morwel (Waur-
fawr 321)

CWM-Y-GLO: Mr. Dafydd Price,
Ty Capel, Cwm-y-glo. (Llanberis 550)

DEINIOLEN: Meirion Jones, Minafon
Clwt-y-bont. (Llanberis 452).

DINORWIG: O.R.Williams, 2 Bro
Elidir (Llanberis 671)

LLANBERIS: Mrs. Siân Thomas,
Foelas, Stryd Newton (Llanberis 220)

NANT PERIS: T.J. Roberts, Llys Awel
LLANRUG: Mrs. Eirlys Pierce, Swyn
yr Awel, Llanrug. (C'fon 3776)

PENISARWAUN: Leslie Larsen,
Llygad yr Haul, (Llanberis 533)

TAN Y COED: Miss Megan Humph-
reys, 4 Tai Tan y Coed (W'fawr 355)

TREFNYDD PLYGU: Gwyndaf
Hughes, 20 Glanffynnon, Llanrug.

TREFNYDD BUSNES: Goronwy
Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos,
Llanrug.

DIOLCHIADAU

Cyfraniad o £2.00 : Mrs Eileen
Roberts, Earls Barton, Northampton.

£2.00 Mr Gwilym Davies, 10 Bro Elidir

£1.00 — Mrs J.D. Evans (Joni'r Iard)
Deiniolen, Di-enw, Llanberis. Mrs
Thomas, Gwynant, Rhos Olgra,
Llanberis. Mrs Jane Jones, 3 New
Street, Deiniolen.

LLYTHYRAU

OCH A FI

Annwyl Syr,

Beth ydi dyn ond ei air. Gwnaethoch
addo yn eich rhifyn mis Medi y buasem
yn cael lluniau gweddill enillwyr yr
Eisteddfod Genedlaethol yn rhifyn
mis Hydref ac o achos yr addewid
hwnnw prynais hanner dwsin o gopiâu
l'w hanfon dros y dŵr i berthnasau a
ffrindiau sydd â diddordeb mawr
mewn rhai o'r enillwyr, ond dim sôn.

A yw pwyllgor Eco'r Wyddfa yn
rhai diargwrn cefn, ac ddim yn hoffi
rhoi cyhoeddusrwydd i rai pobol all
ddod yn amlwg?

Och a fi,

Dyn a helpo ni y Cymry.

Elina Roberts (Mrs)

Teimlaf reidrwydd i ateb. Mae'n
ddrwg iawn gen i eich bod wedi eich
siomi i'r fath raddau Mrs Roberts. Ond
ni roddwyd addewid bendant yn
rhifyn mis Medi, "Ein bwriad yw
cynnwys lluniau . . . " oedd y geiriau
a ddefnyddiwyd bryd hynny. A dyna
yn union yr hyn a fuasem wedi hoffi
ei wneud. Ond os nad yw person ar
gael ar yr amser cywir, neu os nad yw
neges yn cyrraedd pen ei thaith, neu os
yw grŵp o blant ar chwâl (oherwydd
gwylliau, neu wedi gadael ysgol) fe
sylweddolwch mor anodd yw i ni
wneud yr hyn a fwriadwyd gennym.
Gallaf eich sicrhau fod pob ymdrech
wedi ei gwneud ar ran yr Eco i
gynnwys y lluniau, ac mae'n dal yn
fwriad gennym.

Braidd yn eithafol yw eich paragraff
olaf o ystyried ein bod bob amser yn
awyddus i roi lle amlwg i unrhyw un
(neu rai) o'r fro sy'n amlygu ei hun
mewn unrhyw faes.

— Gol.

CERBYDAU AWYR DI-ENW

At y Golygydd,

Yr wyf yn cychwyn ar ymchil i bwnc
C.A.Dau (Cerbydau Awyr Dienw;
U.F.O's).

Hoffwn glywed oddi wrth unrhyw
un sydd wedi gweld — neu'n credu
iddo weld — rhyw ddigwyddiad yn yr
awyr nad oes ganddo eglurhad
boddhaol iddo. Neu ddigwyddiad arall
sy'n peri dryswch.

Liw nos y gwelir y pethau hyn
gan amlaf ond gwyddys am
ddigwyddiadau gefn dydd golau hefyd.

Weithiau y mae pobl yn swil rhag
rhannu eu profiad ac heb os y mae sawl
un a welodd rywbeth heb ddweud
wrth fawr neb ond cyfaill agos neu
gyfar.

Byddaf yn parchu dymuniad
unrhyw un i gadw ei gyfrinach ac i
beidio â'i rhannu a neb arall os dyna'r
dymuniad. Ystyrir pob llythyr yn un
preifat.

Glyn Evans,

Tŷ Newydd,

Waun,

Penisarwaun.

(neu gellir cysylltu â'r Golygydd
Newyddion, Tony Elliott, 3 Bryn
Eglwys, Penisarwaun).

DAW Y RHIFYN
NESAF ALLAN
TACHWEDD 29
Y DEUNYDD I LAW'R
GOLYGYDDION
TACHWEDD 21

CLWB Mynyddda

Annwyl Olygydd,

Mewn cyfarfod cyhoeddus yn yr
Eisteddfod Genedlaethol fe
benderfynwyd ffurfio Clwb Mynyddda
Cymru.

Tybed a gawn ni ddefnyddio peth o
ofod eich papur i ddwyn i sylw unrhyw
un o'ch darllenwyr sydd â diddordeb
mewn mynyddoedd, boed yn ddringwr
creigiau, yn gerddwr neu yn grwydryn
a phabell ar ei gefn fod sefydlu clwb
ar droed (sic).

Un o gyfarfodydd cynta'r clwb
fydd bwrw'r Sul yn mynyddda yn
Eryri dros y cyfnod Tachwedd 16-18.

Os oes unrhyw un â diddordeb,
ac yn siarad Cymraeg anfonwch eich
enw a'ch cyfeiriad ynghyd â stamp i'r
Ysgrifennydd.

Gan obeithio eich gweld ar y
copaon.

Iolo ap Gwynn (Cadeirydd)

Dei Tomos (Ysgrifennydd)

Glan-Ilyn Isa,

Llanuwchllyn,

Y Bala, Gwynedd.

Annwyl Olygydd,

'Rôl gweld hanes am General Syr Hugh
Rowlands, VC, Plastirion yn y C & D
Herald, Medi 21 a darllen am y croeso
tywysogaidd a gafodd gan bobl y cylch
pan ddychwelodd yn fuddugoliaethus
o ryfel y Crimea yn y flwyddyn 1856,
ni fedrwn ymatal rhag ysgrifennu
gair atoch unwaith eto.

'Roedd fy nhaid, William Owen,
Prysgol yn cydoesi â Syr Hugh
Rowlands, ac hefyd yn gymydog
iddo, gyda'r ffordd o Bontrug i
Danycoed yn derfyn rhwng tir y ddau
gartref.

Tebyg mai Syr Hugh a rhyfel y
Crimea oedd testun siarad pobl Llanrug
a'r cylchoedd ar y pryd ac i hynny
ysbrydoli fy nhaid i ysgrifennu'r dôn
Alma ar eiriau yr emyn — 'Beth yw'r
utgorn glywai'n seinio, / Brenin Seilo
sydd yn gwadd etc., er cof am y
frwydr ffyrnig a fu ar lan yr afon
Alma yn y Crimea, ac o barch ac
edmygedd o'i gymydog.

Gallaf ddychmygu i fy nhaid
gyfansoddi'r dôn tra yn dilyn rhyw
orchwyl yn un o'r caeau oedd yn
amlwg yng ngolwg Plastirion.

Bu llawer o ganu ar Alma yn ystod
y ganrif ddiwethaf a dechrau hon, a
gellir ei gweld heddiw yn Emynau
Hen a Newydd, a gyhoeddwyd yn
1954.

Yn gywir iawn,

Mrs M.A. Roberts,
Bod Idris,
Waurfawr.



Dyma benawd i lythyrau band Llanrug dros ugain mlynedd yn ôl.

Ysgwn i hefyd a yw yr aelodau a welir yn y llun yn cael eu henwi yn y
gerdd? Gyrrwyd y llun i'r Eco gan Mr Jones, Llwyn Onn, Llanrug.
Oes rhywun yn gwybod pryd y tynnwyd y llun?

Annwyl Olygydd,

Derbynias y gân yma gan Mrs Olwen
Edwards, 'Cilan', 10 Glanffynnon.
Canwyd gan ei thad Mr Griffith
Thomas, Fachwen, a fu yn difyrru
llawer mewn cyngherddau. Rhoddodd
y gân i mi am fod fy nhad sef Jack
Cae Rhos, fy nhad yng nghyfraith
Eryri, hogiau gleision a hogiau
Minffordd, yn berthnasau, s'yn cael eu
henwi yn y gân. Tybed a fuasai o
ddiddordeb i ddarllenwyr yr 'Eco'?

Yr eiddoch yn gywir,

Eirwen Williams 1 Bryn Gro Llanrug
Canwyd gan fy nhad Griffith Thomas,
Fachwen mewn cyngerdd gyda'r band
yn gynnar yn y 30au.

I fand Llanrug, rhown glod ar gân
Mae hwn yn fand o fri,
Mae'n fand ers amser Adda bron
I lawr i'n dyddiau ni;
Mae'n fand ymysg y Bandia' i gyd.
Llanrug yw band y lle;
Arweinydd mawr y band yn awr
Yw Parry o'r Nan-Lle (Nantlle)

Dau chwythwrs da yw hogiau'r 'Ring',
'Rhen Dwm, a Robin Gwyn.
Lle ceir gwell cornet na Now John
Mae ef mor llawn o swyn.
Daw Bob ac Ifan o'r Minffordd,
A Now bach o'r Allt Goch.
Bydd wyneb Now wrth chwythu'r corn
Fel beetroot bron yn goch.

Rhai ffyddlon gyda'r band o hyd,
Yw'r gleision o'r Cae Glas.
A Jack, Cae Rhos sy'n chwysu'n lli
Wrth grafu nodau'r Bass.
Dau foi â breichiau ydyw rhain
Sef Jack a'i hen gorn mawr.
A Dick, Cae Glas a'i forthwyl drwm
Sy'n deffro'r ddaear lawr.

Ond heb 'rhen Dick ni fyddai band,
Yn Llan-y-rug 'rwy'n siŵr.
Ef a'i forthwyl geidw drefn,
Ar band heb wneud dim stŵr.
6-8, Quick-march, dead-march neu
Waltz

Fe waldia o'r drwm mawr.
A gwnai Jack Mor a Guto Daf
I chwythu fel dau gawr.

Bydd Huw Pen Rhiw yn goch ei liw
Ac Evan o Pen Lan,
Bob Pritchard, ag Edwin, Robin Waen
Sy'n chwythwrs cryf a gwan.
Mae hogia teg Pant Tirion dir
Yn selog yn y band.
Ac Eryri, gyda Jackie sydd
Yn chwarae mewn steil grand.

I fand Llanrug dymunwn lwydd,
Mae'n werth ei gael mewn lle,
Mae'n deilwng band ar unrhyw awr,
I chwarae mewn unrhyw dre.
'Rhen hogia, byddwch ffyddlon wŷr,
I fand Llanrug i gyd.
Ac felly daw eich band i fri
A sylw drwy y byd.

WAUNFAWR

O'R YSBYTY — Croeso adref i Mr T.E. Jones, Cartrefle; Mrs Glenys Jones, Rhandir Mwyn, Mr Alwyn Jones, a Iona Jones, Garreg Fawr.

PRIODAS AUR — Llongyfarchiadau i Mr a Mrs W. Griffiths, Bronallt ar ddathlu eu priodas aur yn ddiweddar.

PRIODAS — Llongyfarchiadau i Dr Helen Wyn Jones ar ei phriodas â Mr Michael Ernest John Hancock FRCS o Salisbury, Wiltshire.

Bydd colled ar ôl Dr Jones yn y 'surgery'; ond dymunwn bob hapusrwydd i'r ddau yn eu cartref newydd yn Llundain, lle byddant yn gweithio o hyn ymlaen.

MERCHED Y WAWR — Nos Iau, Medi 27, cynhaliwyd cyfarfod agoriadol y tymor. Croesawyd yr aelodau, hen a newydd, gan y Llywydd Mrs M Austin Jones. Llongyfarchodd Iris Owen ar ei phriodas a Mrs Griffiths, Bronallt ar ei phriodas aur. Croesawodd Mrs Mary V. Jones a Mrs Glenys Jones o'r ysbty, a dymunodd adferiad buan i briod Mrs Gweneirys Jones. Cydymdeimlodd hefyd â Mrs Valmai Jones yn ei phrofedigaeth o golli ei mam.

Cafwyd noson hynod o ddiddorol yng nghwmni Mr a Mrs T.H. Williams, Drws y Nant. 'Roedd Mrs Williams wedi dod a chasgliad cywrair o'i gwaith llaw i ddangos i ni; a bu Mr Williams, yntau, yn ddiwyd iawn yn ein diddori gyda'i stôr o benillion a storïau diddan. Diolchwyd iddynt gan Mrs Rhian Ellis a Mrs Olwen Williams. Gwnaethpwyd y te gan Mrs Cadi Jones a Mrs O. Williams, ac enillydd y raffl oedd Mrs Nellie Williams, Betws Garmon.

SEFYDLIAD Y MERCHED — Cynhaliwyd cyfarfod mis Hydref o'r Sefydliad yn neuadd yr Eglwys nos Iau, Hydref 4. Mrs Katie Jones, y llywydd, oedd yn y gadair. Ar ol trafod y llythyr misol, llongyfarchodd y llywydd, Mrs Griffiths, Bronallt ar ddathlu ei phriodas aur.

Cafwyd sgwrs ddiddorol gan Dr Noel Roberts a ffilm gan Mr Paul Jones ar 'Ddamweiniau yn y Cartref'. Diolchwyd iddynt gan Mrs Buddug Rowlands.

Enillodd Mrs Woods y raffl a Mrs Blackstone enillodd y gystadleuaeth.

Cynhelir y cyfarfod nesaf, sef y Cyfarfod Blynnyddol yn neuadd yr Eglwys, nos Iau, Tachwedd 1.

PLAID CYMRU — Yng Nghyfarfod Blynnyddol y Blaid penodwyd y swyddogion canlynol. Cadeirydd: Eurig Wyn, Y Frenni. Ysgrifennydd: Dafydd Iwan, Penberth. Trysorydd: John Gwynedd Jones, Bryn Meurig. Cyfetholwyd Edgar Owen i'r Pwyllgor. Bydd y gangen yn canolbwyntio ar ymgyrch i gasglu aelodau newydd a phenderfynwyd cynnal parti Nadolig yn Yr Afr, Beddgelert nos Wener, Rhagfyr 21. Tocynnau ar gael yn y Frenni ac mae croeso cynnes i aelodau a chefnogwyr newydd.

Cyn hynny bydd y merched yn cyfarfod i drefnu ar gyfer y Ffair Nadolig i'w chynnal ar Ragfyr 14 yn neuadd yr Eglwys.

Enillwyr y Clwb Cant:

Mis Awst: Dafydd Iwan £7. Mrs Gwladus Jones £4. Mrs Hughes, Gwastadfaes £2.50.

Mis Medi: Edgar Owen £7. N. Miles £4. Carys Owen £2.50.


LLONGYFARCHIADAU — I Mr Alun Rhys Jones, mab hynaf Mr a Mrs G.M. Jones, 15, Bro Waun ar ei ddychafiad yn ei waith yn Rugby.

I Mr Humphrey Jones, Tŷ Coch a Mr Alun T. Williams, 13, Bro Waun ar eu llwyddiant yn ddiweddar yn Eisteddfod Melin y Coed, ger Llanrws.

CROESO — I'n plith i Mrs Jones Evans o Gricieth, sydd wedi dod i fyw i 'Pennant'. Mae Mrs Jones yn fam i Mrs Beryl Jones, Dôl y Coed.

PROFEDIGAETH — Braw i'r ardal oedd clywed am farwolaeth Mr R.E. Jones, Bryn Derwen. Mawr fydd y golled yn lleol ac yn genedlaethol ac estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf gyda'i weddw, Mrs Catherine Jones, y ddwy ferch Margaret ac Eryl, ei chwiorydd Miss Bessie Jones a Mrs Helen Ramage a gweddill y teulu.

Y GYMDEITHAS LENYDDOL — Nos Lun, Hydref 22, cynhaliwyd cyngerdd gan Barti Eryl, arweinydd: Trefor Selway i agor tymor y Gymdeithas. Edrychwn ymlaen am dymor llwyddiannus unwaith eto. Mae rhaglen ddiddorol wedi ei thynnu allan. Bydd y gymdeithas yn cael ei chynnal ar yn ail, yn Ffestri Bethel a Chroesyswaun. Y tro nesaf, Tachwedd 5, cawn noson o waith Ceiriog ar lafar ac ar gân gan rai o'r aelodau. Byddwn yn cyfarfod yn Ffestri fach Croesyswaun.



Dyma lun Margaret Wyn Zwiers, Whitby, Ontario, Canada, merch Mrs C.A. Pritchard, 6 Tref Eilian, Waunfawr. Bu Margaret ar wyliau'n ddiweddar yng ngogledd Ontario, a thra ar ymweliad ag amgueddfa yno, gwelodd y poster sydd yn y llun uchod. Poster ydyw yn cyhoeddi Eisteddfod Genedlaethol y Rhyl, 1953, eisteddfod y bu Margaret ynddi cyn ymadael i fyw i Canada.

CLWB ERYRI

Cafwyd noson ddifur iawn yng nghwmni y Parch O.M. Lloyd, Caernarfon yng ngwesty Gwynedd nos Wener 5 o Hydref, ac mae argoelion y cawn dymor llwyddiannus iawn eto. Testun O.M. Oedd 'Cynnyrch llenyddol Eisteddfod Caernarfon, 1979', ac wedi ei anerchiad, cafwyd trafodaeth fywiog iawn o dan lywyddiaeth Mr Llion Jones, gydag amryw o'r aelodau yn datgan ei barn ar y gwahanol gystadlaethau a'r cynnyrch. Etholwyd chwe aelod newydd sef Gwilym Owen, Bethel; Twrog Jones, Llanrug; Iwan Roberts, Llanrug; Wyre Thomas, Waunfawr; Cledwyn P. Jones, Llanberis a J. Norman Davies, Llanberis. Bydd y cyfarfod nesaf ar nos Wener 2 o Dachwedd pan y ceir anerchiad gan Lywydd y Clwb am y tymor, Mr Iolo Llywelyn, Llanrug ar y testun 'Mytholeg y Beibl' gyda Mr Brython Jones, Deiniolen yn y gadair.

Cronfa cartref H.R. Jones

Mae Apêl wedi ei chychwyn am gyfraniadau i Gymdeithas Tai Gwynedd fel y gall Cymdeithas Tai Gwynedd brynu'r tŷ sydd eisoes wedi ei hysbysebu yn yr Eco, sef 8 Tai Gwledfa, Deiniolen.

Mae'r Gymdeithas yn awyddus i'w brynu am mai yno y ganwyd H.R. Jones, y gŵr a wnaeth gymaint â neb i gychwyn Plaid Cymru ac a fu'n Ysgrifennydd a Threfnydd cyntaf iddi. Ef hefyd a fu'n gyfrifol i ailenwi pentref Deiniolen ('Ebenezer' oedd yr hen enw) gan y credai fod gormod o enwau Cymraeg gwreiddiol yr ardaloedd hyn wedi eu disodli gan enwau Beiblaidd megis Carmel, Bethel, Cesarea, Nazareth, Nebo ac ati. Yr oedd yn Gristion ac yn Genedlaetholwr i'r carn, ac yr oedd yn ysbrydoliaeth i lawer yn nyddiau cynnar y Blaid. Dyn wedi ei addysgu ei hun ydoedd i raddau helaeth, er iddo elwa llawer ar addysg eang y caban chwarel yn nyddiau ei lencyndod. Aeth wedyn i weithio mewn swyddfa ac yn drafeliwr cyn mynd i weithio (am gyflog pitw) i'r Blaid. Bu farw o'r diciâu yn 36 oed, a 'does dim dwywaith i'w lafur di-arbed dros achos Cymru brysuro ei farwolaeth.

Dywedodd Dafydd Iwan, " 'Rwy'n edmygydd mawr o'r gŵr hwn, ac ni chredaf ein bod wedi rhoi hanner digon o sylw iddo. 'Rwy'n falch iawn felly bod Cymdeithas Tai Gwynedd wedi penderfynu prynu'r tŷ lle'i ganwyd, ac am roi cyfle i bawb gyfrannu tuag ato. Bwriad y Gymdeithas yw adnewyddu rhywfaint ar gefn y tŷ a'i osod i deulu lleol. Byddwn hefyd yn rhoi llechfaen ar fur y tŷ i ddweud mai yno y ganwyd H.R.

YN EISIAU YN NEINIOLLEN

Person i warchod tri phlentyn tra maent yn cysgu, oddeutu dwy nos Fercher y mis, o 7-9.30 pm. Darperir trafndiaeth gartref.

Ffôn:

Sue Skillicorn,
Padarn 242.

Tan y Weirglodd, Clwt-y-bont.

CRONFA CARTREF H.R. JONES

Mae Cymdeithas Tai Gwynedd yn bwriadu prynu 8 Tai Gwledfa, Deiniolen i'w adnewyddu a'i osod i deulu lleol. Bydd y Gymdeithas hefyd yn gyfrifol am osod llechfaen ar y mur i nodi'r ffaith mai yno y ganwyd y Cenedlaetholwr arloesol H.R. Jones. Gwahoddir chwi i gyfrannu at y gwaith trwy roi rhodd i'r Gymdeithas, neu trwy roi benthyciad di-log neu fuddsoddiad yn y Gymdeithas. Gellwch wneud hynny drwy lenwi'r ffurflen isod a'i dychwelyd gyda'ch siec i Gymdeithas Tai Gwynedd, Ffordd Llanllyfni, Penygroes, Caernarfon.

Amgaeaf siec am £..... fel
*rhodd / *benthyciad di-log /
*buddsoddiad tuag at y Gronfa
uchod.

Enw

Cyfeiriad

.....

.....

Arwyddwyd

Dyddiad

*Dilêwch y ddau anaddas.

Sieciau'n daladwy i:
Cymdeithas Tai Gwynedd —
Cronfa H.R. Jones.

YN EISIAU

Ar Barti Dawnsio Gwerin
Aelwyd Caernarfon.

Dynion (dros 18) i ddawnsio
a chyfeilyddion
(ffidil, acordion, fflwt, piano etc)
Ymarfer bob nos Iau
yn yr Aelwyd Caernarfon
am 7.30 pm.

— neu ffoniwch Caernarfon 3485
am ragor o fanylion.

GWILYM JONES Monumental Works LLANRUG

FFÔN CAERNARFON 2898

Gwaith Coffaol o bob math
mewn llechi a gwenithfaen gan
grefftwyr lleol

DEINIOLEN

MERCHED Y WAWR — Cafwyd noson arbennig o dda yn ail gyfarfod y tymor ar Hydref 8. Llywyddwyd y cyfarfod gan Miss Kathleen Jones. Anfonodd gofion yr holl aelodau at amryw o'r aelodau sydd yn cwyno ac yn methu â mynychu'r cyfarfodydd. Croesawyd amryw o aelodau newydd ac yn eu mysg croeso bro i Mrs Megan Morris sydd wedi ail-ymsefydlu yn Ninorwig ar ôl tymor hir ym Mangor.

Etholwyd Mrs E. Williams, Y Bwthyn a Miss E. Jones, Madryn i gynrychioli'r gangen yn y cyfarfod cenedlaethol yn Aberystwyth ar Sadwrn, Tachwedd 3.

Addawodd Mrs Eirlys Williams, Mrs Gwen Hughes a Mrs Dilys Huws ofalu am y stondin yn y Ffair Nadolig Ranbarthol sydd i'w chynnal yng Nghaernarfon ar Sadwrn, Rhagfyr 8. Fe fyddant yn falch o unrhyw gynnyrch ar gyfer y stondin a threfnir i ddod i'w cyrchu os bydd gan yr aelodau unrhyw beth i'w roddi.

Clywyd adroddiad gan y Trysorydd Mrs Marian Wyn Williams, Tai Caradog iddi dderbyn llythyr oddi wrth Mr Eames yn nodi bod y tâl am fenthycar ysgol yn awr yn £2.

Yn ail ran y cyfarfod croesawyd Mr Gwynfor Williams o Lanberis i drafod ei brofiadau fel gŵr ambiwlans ac hefyd am ei brofiadau yn un o'r tîm sydd yn achub dringwyr mewn trafferthion ar yr Wyddfa. Cafwyd noson hynod o ddiddorol mewn sgwrs a ffilm a diolchwyd yn gynnes iawn i Mrs Williams gan Mrs Eirlys Williams.

Yna cafwyd stondin moes a phryn a gwnaed elw sylweddol tuag at gyllid y gangen.

Terfynwyd y noson gyda phaned wedi ei threfnu gan Mrs Jones, 4 Pentre Helen, Mrs Jones 7 Hafod Oleu, Mrs Evans 3 Hafod Olau, Mrs Hughes, Erw Fair, Mrs Jones, Tŷ Capel Libanus a Mrs Thomas, Berthen Gron. Rhoddwyd y raffl gan Mrs Beti Roberts, Tai Fictoria ac enillwyd gan Mrs Hughes, Tai Caradog.

APÊL GWAUN GYNFI — Aeth Eisteddfod Genedlaethol Caernarfon a'r Cylch heibio cyn i Bwyllgor yr Apêl fedru cau pen y mwddwl, ond bellach derbyniwyd y geiniog olaf gan y Trysorydd, a gellir cyhoeddi fod cyfanswm y casgliad yn £2, 454. Cyhoeddir mantolen maes o law yn dangos y cyfrif terfynol.

Methwyd â chyrraedd y nod osodwyd i'r pentref, ond ni rhaid cywilyddio am hynny o gofio'r amrywiol ofynion ariannol fu ar y trigolion yn ystod y ddwy flynedd aeth heibio. Dymunai Pwyllgor yr Apêl ganmol yr ymdrech wnaed, a datgan eto ei werthfawrogiad o'r gefnogaeth hael a brofwyd, a diolch am lawer cymwynas ddiregel dderbyniwyd dros gyfnod y casgliad.

Y GANOLFAN — Mewn Cyfarfod Cyhoeddus gynhaliwyd yng nghapel Maesdyref, nos Fercher, Hydref 3, etholwyd y canlynol i gynrychioli mudladau/sefydliadau yn y pentref ar Bwyllgor Rheoli Canolfan, Deiniolen: Gwen Hughes, (S.Y.M.); Eurwyn Jones, (Carnifal); Jennie Morris Jones, (St. Ioan); Parchg. Trefor Lewis (Cyngor Eglwys); Gloria Thomas, (Guides); William Orwig Williams (Seindorf).

Cyhoeddwyd yn y cyfarfod hefyd bod y canlynol wedi eu hapwyntio i gynrychioli'r Cyngorau Lleol ar y Pwyllgor Rheoli: Cyng. P.G. Larsen, (Gwynedd); Cyng. J.A. James, (Arfon); Owen Gibson, (Llanddeiniolen). Erys bellach i Reolwyr Ysgol Gwaun Gynfi ethol dau o'u plith i'w cynrychioli cyn byddo'r Pwyllgor Rheoli yn gyflawn i gyfarfod am y tro cyntaf.

Adroddwyd i'r Cyfarfod yn ogystal

bod Eglwys Maesdyref wedi derbyn cyfarwyddyd i beidio cyflwyno'r capel i'r pentrefwyr hyd oni chwblheir ymholiadau ynglŷn â rhai agweddau cyfreithiol i'w bwriad.

BROWNIES — Derbyniwyd chwech o aelodau newydd i Frownies Cyntaf Deiniolen yn y cyfarfod nos Fawrth 9 o Hydref, sef: Jennifer Jones, Glenda Plemming, Linda Plemming, Sara Davies, Jessica Manford, a Sharon Lambeth. Bydd rhai o'r Brownies yn mynd ag anrhegion i Ward y Plant yn ysbyty Dewi Sant ym Mangor yn ystod gwyliau Diolchgarwch. Dymunai'r Brownies ddiolch i Bwyllgor cae chwarae Deiniolen am eu rhodd yn ddiweddar.

PLAID CYMRU — Cyfarfu pwyllgor y gangen yn ystafell y seindorf nos Fawrth, Hydref 23, pryd yr etholwyd aelodau i gynrychioli'r gangen yng Nghynhadledd y Blaidd yn Llandudno.

Cynhelir y cyfarfod blyneddol yn ystafell y seindorf, nos Fawrth, Tachwedd 6, am 7 o'r gloch.

Yng Nglan Traeth, Môn, y bydd y cinio Nadolig eleni. Disgwylir i aelodau ac eraill roi eu henwau i unrhyw un o'r swyddogion cyn gynted ag sydd bosibl.

Penderfynodd y pwyllgor ysgrifennu at swyddog iechyd cyngor Arfon, i gwyno ynglŷn â chyflwr stryd fawr y pentref, gan nad yw glanhau'r stryd ddau ddiwrnod yr wythnos yn ddigonol.

Enillwyr Clwb Cant Hydref oedd — £15: Robert Jones, 3 Tan-y-foel (rhif 76); £10: Miss Ciss Rowlands, Gorlan-y-bont (rhif 9).

Erfynnir yn daer am gefnogaeth aelodau i'r gweithgareddau uchod.

DIOLCH — Dymuna Mrs H.J. Thomas 6 Marian Terrace ddiolch yn gynnes iawn i bawb am bob caredigrwydd a dderbyniodd pan yn Ysbyty Dewi Sant Bangor. Hefyd diolch am y llw cardiau, a diolch i staff yr ysbyty am eu caredigrwydd a'u gofal di-fflino.

Dymuna Mrs Laura Williams, 20 Hafod Olau, Deiniolen, ddiolch o galon i bawb am yr holl gardiau, blodau, a ffrwythau, a dderbyniodd tra o dan driniaeth yn Ysbyty Dewi Sant Bangor. Diolch o galon i'r holl staff ar Ward Gwynedd am eu caredigrwydd a'i gofal tyner ohoni. Diolch yn fawr iawn.

Dymuna Dylan Wyn Jones, 3 Rhydfadog, ddiolch i'w gyfeillion a'i deulu am y llw cardiau ac anrhegion a dderbyniodd yn ystod ei arhosiad yn yr ysbyty yn ddiweddar.

Carai ddiolch yn fawr iawn i'r gweinyddesau a'r meddygon o Ward Dwyfor, Ysbyty Môn ac Arfon am eu gofal caredig ohono, ac hefyd i'r nifer o bobl a ymwelodd ag ef tra bu yn yr ysbyty.

Dymuna Mrs K. Jones, 5 Caradog Place, ddiolch o galon i bawb o'i ffrindiau a pherthnasau am y llw cardiau a dderbyniodd yn ystod ei harosiad yn Ysbyty Môn ac Arfon Bangor ac yn Ysbyty Eryri, Caernarfon. Hefyd i'r meddyg a'r gweinyddesau am eu gofal.

DIOLCH I GYD-ARDALWYR Carwn drwy gyfrwng yr Eco, gymryd y cyfle hwn i ddatgan ein diolch fel aelodau Eglwys Maes-y-dref (A) i bawb a fu yn gymorth i ni dros ysgwydd y blyneddodde.

Oherwydd amgylchiadau anorfod, bu rhaid cau yr Addoldy uchod, er gofid i lawer ohonom. Fel mae yn wybyddus i liaws ohonom bu i aelodau y Capel ddod i'r penderfyniad o'i gyflwyno, yn rhad ac am ddim at wasanaeth yr ardal yn gyffredinol, i'w ddefnyddio fel Canolfan a'i addasu ar gyfer gweithgareddau y fro, yn ddoeth a rhesymol, mewn parch i'r hen bobl

a'u cododd trwy galedi a chyni y gorfennol.

Diolchwn am y cymorth a fu i lawer mewn moes a chred, ac am ogoniant y dyddiau a fu.

Dymunwn iddo fod yn gymorth eto i'n hoës gyfoes, hwyrach mewn dulliau newydd,, ond yr un mor werthfawr ac adeiladol am flynyddoedd i ddod, a chanrif arall yn dechrau yn ei hanes.

Yn ddiolchgar iawn,

John D. Evans.

(Ar ran aelodau Maes-y-dref sydd weddill)

Wedi canrif o wasanaeth,
Daeth dy ramant hir i ben;
O mor chiwth i'r hen ffyddloniaid
Gweld dy gau, a rhoi'r Amen;
Darfod wnaeth y gân a'r weddi,
Ni ddaw'r Gair o'r pulpud mawr,
Ni ddaw gweision yr Efengyl
Yma mwy at deulu'r llawr.

Ond, fe erys cof "amdanat"

Yng nghalonau rhai o hyd;
Cofio'r saint fu'n cyd-addoli,
Teulu'r ffydd O! gwyn eu byd:
Diolch wnaawn am lafur cariad
Y ffyddloniaid ddyddiau gynt,
Tybiwn glywed yr Amenau
Eto'n dod ar donfa'r gwynt.

Ond er cau o'r hen allorau,
Mae'r Aberthwr mawr yn fyw;
Er holl newid cyfundrefnau
Deil ei ras i ddynolryw:
Y mae Iddo eto dystion
Ymhob goror, ymhob Llan,
Duw a'n gwared fyth rhag credu
Fod yr Achos mawr yn wan.

Os yw'r tabernaclau annwyl

Yn distewi un 'rôl un,

Bydd ein H'Arglwydd eto'n meithrin

Llu o dystion iddo'i Hun:

Trwy rhyw ddiregel ffyrdd mae'n

cynnal

Holl ofynion Teulu'r llawr;

Hwyrach daw 'mhen canrif eto

Lanw'r Nef fel arlwy mawr.

I'n cenhedlaeth ieuanc gyfoes

Ein h'ewyllys olaf yw,

Y bydd rhywrai eto'n parchu

Man Cyfarfod Pobl Dduw:

Os mai gweithgareddau newydd

Fydd ei ran i'r oes a ddêl,

Boed llawenydd rhwng ei furiau

Er hyfforddiant bro a'i sêl.

Hoff ieuencid Bro Gwaengynfi,

Parchwch Dduw, a pharchwch ddyn,

Cydwch yn y pur a'r prydferth,

Cedwch beunydd yn gyfôn:

Yn eich gweithgareddau newydd

Mynnwch drefn o anrhefn oes;

Fel bo rhywrai eto'n canmol

Eich holl ddulliau chwi a'ch moes.

John David Evans, Maes-y-dref.

DISGWYLFA/CEFNYWAUN — Yr wythnos diwethaf gwelwyd cychwyn ar gyfarfodydd y gaeaf. Ar gyfer y plant y mae cyfarfodydd fel a ganlyn — Nos Fawrth: Plant hyd at 8 oed. Nos Iau: Clwb Trwro, plant hyd at 11 oed. Nos Wener: Clwb yr Ifanc. Plant dros 11 oed.

Cynhelir Seiat ar nos Fercher a bydd y Gymdeithas Lenyddol yn cael ei chynnal ar y 4ydd nos Lun o'r mis.

Ar nos Wener, Medi 28, cynhaliwyd Noson Goffi gan Chwilydd eglwys Disgwylfa. Bu'n noson hynod o lwyddiannus a gwnaed elw o dro £227. Ciolchir i bawb a gyfrannodd tuag at y noson mewn presenoldeb a thrwy roddi nwyddau.

Dathlwyd yr Ŵyl flynyddol o Ddiolchgarwch am y cynhaeaf yng nghapel Disgwylfa a Chafnywaun ar ddydd Llun, Hydref 15. Cymerwyd rhannau gan oedolion, pobl ieuainc a phlant. Rhannwyd y ffrwythau yn ysbytai Mon ac Arfon a Minffordd.

NOSON GOFFI — Cynhelir Noson Goffi yn Ysgol Gwaun Gynfi nos Wener, Tachwedd 16 am 7 o'r gloch. Yr elw at Dîm Pêl-droed Ieuencid y pentref. Croeso cynnes i bawb.

DIOLCH — Dymuna Mrs Nellie Hughes, 4 Tai Gwyrfa ddiolch i'w chymdogion a chyfeillion am eu caredigrwydd ati, tra bu yn cael triniaeth yn yr ysbyty. Hefyd i'r meddyg a'r gweinyddesau yn ysbyty Eryri, Caernafon.

MARWOLAETH — Mr Dunston Pritchard, Plas y Rhiw, Clwt y Bont. Cydymdeimlwn yn fawr â'i briod a'r cysylltiadau teuluol.

GWAELEDD — Mae sawl un o'r pentref wedi bod yn wael yn ddiweddar, rhai gartref, ac eraill yn yr ysbytai a dymunwn adferiad llwyr a buan iddynt oll.

SEFYDLIAD Y MERCHED — Cynhaliwyd cyfarfod o'r gangen nos Lun, Hydref 2, yn ysgol Gwaun Gynfi gyda Mrs Nan Williams, 12 Ffordd Deiniol yn llywyddu yn absenoldeb Mrs Eilrys Williams, Pentre Helen, a oedd wedi mynd i Goleg Denman. Darllenwyd y llythyr misol a chafwyd noson 'Bring and Buy' lwyddiannus. Trefnwyd y te gan Mrs Priscilla Collins, Maes Gwylfa a Mrs Marian Williams, Ffordd Deiniol. Bydd Sefydliad y Merched, Deiniolen yn gyfrifol am drefniadau a lluniaeth ar gyfer Cyfarfod yr Hydref o'r Sefydliad yn ysgol Brynrefail, Llanrug ar Hydref 25. Byddant hefyd yn trefnu adloniant i'r aelodau gyda chaneuon a sgetses.



HOGIAU MILLS, CHWAREL DINORWIG 1958

O'r chwith: Owen Roberts, Arthur Thomas, Cledwyn Parry, Tommy Morris, Ffowc Ellis Jones, Cledwyn Parry a Morris Henry.

Llun trwy garedigrwydd Bobby Roberts, 96 Pentre Helen, Deiniolen.

Bethel

DIOLCHIADAU — Dymuna teulu Blaen-parc ddiolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt o golli modryb mor annwyl. Bu pob gair a gweithred yn gysur a diddanwch iddynt yn y dyddiau blin. Diolch i'w gweinidog y Parch W.R. Williams, y Parch R.E. Hughes, Nefyn a'r Parch Harri Parri, Caernarfon.

Diolch arbennig i feddyg y teulu a'r gweinyddesau lleol am eu gofal difflino ohoni. Ac i'r cyfeillion ffyddlon a drodd i mewn yn aml i Flaen Parc i gadw cwmni iddi yn ystod y pedair blynedd y bu yn cartrefu yma. Bu hyn yn help mawr iddi ac i ninnau oedd yn gweini arni.

Trosglwyddwyd £215, er cof am Anti Cein i Gronfa Leol Uned Cardiac y Galon. Diolch yn fawr i bawb am gyfrannu mor hael.

LLONGYFARCHIADAU — I bedwar o bobol ifanc y pentref a fu'n dathlu eu pen-blwydd yn 18 oed yn ystod y mis. Ar y 10 'roedd Anwen Jones, 13 Eryri yn ddeunaw, ar y 17 'roedd Eirian Jones, 12 Bro Rhos a Gwyn Jones Trigfa yn ddeunaw ac ar 19 'roedd Arwel W. Jones, Arddol, Penrhos yn dathlu.

THEATR BARA CAWS — Nos Fercher Tachwedd 7 am saith o'r gloch bydd Theatr Bara Caws yn cyflwyno 'Hwyliau'n Codi' yn y neuadd.

Sioe yw 'Hwyliau'n Codi' sydd yn rhoi cyfle i'r gynulleidfa fwynhau caneuon, cymeriadau a straeon y môr a blasu y rhymant a'r cynnwrf a fu'n gysylltiedig â'r môr, a'i ddylanwad ar y tir yng Ngwynedd.

Dyma gyflwyniad cyntaf Theatr Bara Caws ar ôl eu llwyddiant ysgubol yn yr Eisteddfod ac ar daith gyda'i rifiw, Merched yn Bendant.

Bydd yr elw o'r noson, sy'n cael ei threfnu gan Ferched y Wawr, yn cael ei gyfrannu i Gronfa Goffa Michael Bradley a Gareth Fôn Roberts er hyrwyddo ymchwil i Leukaemia.

YR YSGOL FEITHRIN — Bore dydd Llun, Hydref 22 agorodd yr Ysgol Feithrin yn y neuadd. Pedwar o blant oedd yn y cyfarfod cyntaf ond fel y bydd mwy a mwy o blant yn cyrraedd 2½ oed mae'r nifer yn siŵr o gynyddu. Mae croeso i unrhyw un gyda phlentyn dros 2½ oed ddod ag o i'r neuadd erbyn 9.30 ar fore dydd Llun neu dydd lau.

Y NEUADD GOFFA — Am nad oedd gan y Neuadd Drwydded Canu a Dawnsio ni fu'n bosibl i gynnal Disgo o gwbl yn y neuadd ers tua dau fis.

Dydd lau, Hydref 25 bu Mr Geraint Elis, Ysgrifennydd Pwyllgor y Neuadd yn Llys Ynadon Caernarfon yn cefnogi'r cais am drwydded.

Caniatawyd y cais ar yr amod bod diffoddwyr tân a goleuadau arbennig yn cael eu gosod yn y neuadd.

YR YSGOL GYNRADD — Cynhaliwyd cyfarfod Diolchgarwch yr ysgol yng nghapel Cysegr ddydd Mawrth Hydref 9, gyda'r plant a'r Parch W.R. Williams yn cymryd

rhan. Cyflwynwyd y casgliad o £27.73 i Gronfa Deillion Gogledd Cymru, Bangor.

Mae'r ysgol yn dewis bardd y mis ac yn astudio ei waith bob mis. Ym mis Medi y bardd oedd Mr T.R. Hughes a bu rhai o blant yr ysgol yn ymweld â'i gartref yn Llanberis. Bu'r plant yn darllen peth o'i waith yn y Gwasanaeth boreol ac yn gwrandao ar record o Cynan yn darllen peth o'i waith ei hun. Fel rhan o weithgarwch arall, lle mae gweithwyr yn dod i sgwrsio gyda'r plant am eu gwaith bu Swyddog Diogelwch y Ffyrdd a phlismen yn sgwrsio â'r plant hynaf.

Cynhelir y Gwasanaeth Coffa eleni ger y Gofeb am 10.45 bore Sul, Tachwedd 11. Bydd y gwasanaeth dan ofal y Parch W.R. Williams ac fe osodir torchau o babi coch ar y gofeb gan gynrychiolwyr o fudiadau yn y pentref.

DIOLCHGARWCH — Ar y dydd Sul y cynhaliwyd Gŵyl Ddiolchgarwch Capel Bethel eleni, gyda'r plant yn cymeryd rhan yng ngwasanaeth y bore a Mrs Eluned Ellis-Jones yn rhoi annerchiad yng ngwasanaeth yr hwyr.

Yn y Cysegr dydd Llun oedd y dydd Diolchgarwch gyda'r plant yn cynnal gwasanaeth y bore, athrawon yr Ysgol Sul yn y prynhawn a'r blaenoriaid a'r Parch W.R. Williams yn y nos.

FFARWELIO

Nos Fercher, Hydref 17, cyfarfu chwiorydd Eglwys Cysegr i ffarwelio â Mrs Dilys Ellis, Ael-y-bryn sydd yn gadael yr ardal ddiwedd y mis i gartrefu yn Ninbych.

Daeth Mrs Ellis i fyw i Fryn Banon yn 1934 gyda'i modryb a'i hewythr Parch a Mrs Robert Lewis oedd yn weinidog ar y Cysegr. Priododd gyda'r diweddar Mr Robert Ellis ym mis Mai 1939.

Cymerodd Mrs Ellis ddiddordeb mawr ym mhob agwedd o waith yr eglwys. Penodwyd hi yn Flaenores yn 1971 — yr unig wraig erioed i gael y swydd yma yn y Cysegr.

Fel arwydd o werthfawrogiad y chwiorydd anhegwyd Mrs Ellis gyda 'Digital Clock Radio' a siec, gan Mrs Nan Owen, Berwyn, llywydd cymdeithas y chwiorydd a blodau gan Miss Mary Wyn Williams, Granville.

Darparwyd y bwyd gan chwiorydd yr eglwys. Gwestwragedd y noson oedd Miss Mary W. Williams, Granville, Misses Myfanwy a Helen W. Jones, Glan Gors a Miss Ann Evans, Blaen Parc.

Cafodd pawb oedd yn bresennol flasu y deisen a wnaed yn arbennig at yr achlysur gan Mrs Mair Jones, Glan Gors.

Cymerwyd y rhannau defosiynol gan Mrs Mair Jones, Glan Gors (Trysorydd) a Mrs Elizabeth E. Evans, Blaen Parc (Ysgrifennydd). Darllenwyd llythyr o ddymuniadau da i Mrs Ellis oddi wrth Mrs K.E. Jones, Plas Ogwen i aelod hynaf yr eglwys.

Talwyd y diolchiadau gan Mrs M.G. Williams, Gwylfa a Mrs Hughes, 17 Bro Rhos.

llyfrau

C'NARFON A CHERDDI ERAILL gan Selwyn Griffith.

"Y mae eisteddfodwyr ledled Cymru yn gyfarwydd iawn ag enw Selwyn Griffith, fel beirniad, fel awdur pedair cyfrol o adroddiadau i blant, ac fel bardd a enillodd gadeiriau rhai o'r prif eisteddfodau taleithiol. Y mae ei gyfraniad ym maes adroddiadau plant yn gyfraniad nodedig iawn ac ef, erbyn hyn, yw'r prif gymwynaswr yn y cyfeiriad hwnnw."

Dyna agoriad y Prifardd Geralit Lloyd Owen yn ei ragair i lyfr diweddaraf y bardd a'r beirniad adrodd o Fethel — Selwyn Griffith.

Heb os, Selwyn yw'r cynhyrchydd cerddi plant mwyaf toreithiog ar hyn o bryd. Defnyddir ei gerddi ym mhob ysgol bron ac adroddir ei adroddiadau ymhob eisteddfod. Gallaf innau fel athro eich sicrhau fod mynd mawr ar ei gerddi yn y dosbarth a bod y plant yn cael blas a mwynhad pur o'i darllen.

Mae apêl ehangach yn 'C'narfon a Cherddi Eraill'. Chwi gofiwch i'w gerdd 'Y Dref' (Caernarfon) ddod yn ail yng nghystadleuaeth y goron yn Eisteddfod Genedlaethol Rhuthun ac oherwydd ei symrlwydd a'i ffresni cafodd fwy o sylw a chyhoedduswyd na'r gerdd fuddugol. Mae'r werin yn dal i obeithio y daw cerdd o'r fath yn fuddugol rhywdro yn lle ein bod yn 'stryffaglo' o flwyddyn i flwyddyn i geisio deall cerddi hir a thywyll cystadleuaeth y goron.

Nid oes gwaith deall ar gerddi C'narfon — maent yna yn daclus i'r darlennydd eu mwynhau. Mae'r darluniau a greir ynddynt yn fyw a'u negeseuau'n glir a phendant.

Yn sicr, dylai'r llyfr fod ym meddiant pob un o ddarlennwyr yr Eco — wedi'r cyfan y fro, ei phobl a'i phlant yw'r symbyliad tu ôl i'r cerddi.

Gwasg Gwynedd. Pris £1.50

LLAIS Y MEINI gan y diweddar G.T. Roberts, M.A.

Mae llawer iawn o'r diolch am ddwyn y gyfrol hon i olau dydd yn mynd i'r Athro Bedwyr Lewis Jones, Mr Derwyn Jones, Mrs K. Roberts a Gwasg Gwynedd.

Dyma'r casgliad anhygoel o englynion beddargraff gan y diweddar brifathro o Lanrug, G.T. Roberts a sicrhodd iddo'r wobwr gyntaf yn Eisteddfod Genedlaethol Wrecsam 1977. Enillodd ganmoliaeth uchel iawn am ei ymdrech diflino o gasglu englynion beddau gan y beirniad — Yr Athro Bedwyr Lewis Jones. Ceir yma waith oes o gasglu, a hyfryd meddwl bod prif sefydliad diwylliant y genedl wedi cydnabod yr ymdrech fawr. Cysur mawr i'w deulu a'i gyfeillion oedd iddo gael byw i glywed am ei fuddugoliaeth yn Wrecsam, oherwydd bu farw G.T. Roberts ar 17 Awst 1977 a rhoddwyd ei weddillion i orffwys ym mynwent Llanrug. Gresyn ar y llaw arall na fyddai wedi cael byw i weld y casgliad wedi ei gyhoeddi mor daclus a glân.

Gwasg Gwynedd — Pris £2.00

Cefnogwch Ein Hysbysebwy

EISTEDDFOD LLANRUG — Bwriedir cynnwys lluniau o'r Eisteddfod lwyddiannus yn y rhifyn nesaf.

YN EISIAU

**GOFALWYR I
GAPEL MAWR
LLANRUG.**

Ymofynner â:
Mr Ian Pierce
Swyn yr Awel,
Llanrug.

Ffôn: Caernarfon 3776

Mynnwch eich
PAENT a PHAPUR PAPURO
oddi wrth

E. WILSON HUGHES
84 Stryd Fawr
LLANBERIS

Ffôn: Llanberis 491

MELYSION A BACO AR WERTH HEFYD



Plant Ysgol Bethel wrth fedd Cynan

Y LEIN BACH

N.W.N.G.R., — na nid rhyw Gymdeithas gudd fel y Maffia ond rheilffordd bach sy'n rhedeg o Dinas, Llanwnda i Ryd-ddu. Cafodd enw arall hefyd, sef y Welsh Highland Railway — W.H.R. Cefais i fy magu ym Metws Garmon ryw gam neu ddau o'r lein ac heb fod ymhell o 'Salem Halt', lle y byddai'r trên yn aros i godi teithwyr.

Byddai'n cychwyn, o Stesion Dinas i fyny am Tryfan Junction a byddai'n rhaid aros yn hir yma ambell dro; y rheiliau yn wlyb a'r injian yn troi yn ei hunfan wrth geisio tynnu i fyny. Yna ymlaen i'r Waunfawr, ac o'r fan honno i Stesion Betws. Yma fyddai lein Chwarel Hafod y Wern yn dod â llechi i'r 'siding'. Dipyn yn uwch yr oedd 'siding' gwaith haearn yr Ystrad. Ymlaen oddi yma i Salem Halt, Cychwyn eto a'r trên erbyn hyn wedi croesi afon Gwyrfa dair gwaith, nes dod at Plas y Nant. Yma y pryd hynny yr oedd arosfa breifat John Parry y Sgweiar. 'Roedd arosfa breifat arall ger Pont Castell Cidwm gan G.B. Thomas y Brawd, Caernarfon gan y byddai'n dod i aros yn aml i Cwrt. Erbyn hyn byddai Llyn Cwellyn yn dod i'r golwg a'r stesion nesa' fyddai Quellyn Lake yna ymlaen i Rhyd-ddu.

Mae llawer stori digon doniol ynglŷn â'r hen lein. Y Parch. R.R. Morris (awdur yr emyn 'Ysbryd byw y deffroadau') un tro yn stopio'r trên ddwytha' i lawr ac yn gofyn i'r gyrrwr pryd y câi o drên i Snowdon Ranger. Y gyrrwr yn dweud nad oedd un arall y diwrnod hwnnw. Meddai Mr. Morris:

Tro'r engine tua'r Ranger
Dyrod i'r hen R.R."

O'r gweithwyr a fu ar yr hen drên bach, y tri yr wyf yn eu cofio orau oedd John Williams y gyrrwr, William Huw y taniwr a Tomos Morris y Giard. Cof gennyf fel y byddai Tomos Morris yn galw acw i hel arian am gario sachaid o datws a arferai fy nhaid o Frynceir eu hanfon i ni bob blwyddyn. Sachaid 224 pwys a'r tâl am ei gario fyddai naw ceiniog. Gan fod pawb bron y pryd hynny yn pobi gartref byddai'r burum yn dod i fyny i Fetws Garmon gyda'r trên bedwar bob dydd Mawrth. Weithiau ni fyddai raid i'r trên stopio yn Salem Halt ac felly byddai Tomos Morris yn taflu'r pecyn burum o'r trên. Y fi

yn aml iawn fyddai'n disgwyl amdano ac yn rhedeg â fo i'r siop. Un prynhawn methais â bod yno mewn pryd. Roedd y Giard wedi taflu'r parsel fel arfer gan wybod y byddai rhywun yn siŵr o ddod i chwilio amdano. Ond y prynhawn hwnnw methais yn lân â'i ddarganfod ac er cael cymorth Mr Williams y siop nid oedd golwg ohono yn unman. Ac yn wir ni ddaeth y burum i'r golwg tan ddiwedd yr wythnos. Sylwodd fy mam fod y domen ludw a oedd ger y tŷ yn chwythu fel neidr ac yn fuan iawn fe welwyd beth oedd wedi digwydd. Yr oedd y hen Handi yr ast ddefaid wedi dod ar draws y pecyn burum ac wedi'i gladdu yn y lludw ac yr oedd y glaw a chynheswydd y lludw wedi peri iddo godi fel tocyn twrch daear.

Nid oedd terfynau'r lein yn rhai da a byddai defaid a gwartheg hefyd weithiau yn crwydro i'r lein. Ambell dro byddai cymaint ag ugain o ddefaid yn pori'n braf reit o flaen y trên ac yn gwrthod symud. Byddai'n werth gweld John Williams wrthi'n chwibanu a chwythu stêm a'r taniwr yn lluchio glo a gwneud pob math o gyffro i geisio symud y defaid. Ar ôl helynt o'r fath byddwn yn mynd gyda pwced i hel cnapiau glo a luchiwyd at y defaid. Llauer i lond pwced a heliais fel hyn o dro i dro. Byddai damweiniau bach yn digwydd weithiau. Clywais gan fy rhieni am un ddamwain a ddigwyddodd ger Pont Penygader. Roedd wagen lo wedi rhedeg i lawr o Stesion Snowdon ac yn erbyn y trên a oedd ar ei ffordd i fyny. Trodd y wagen drosodd ac aeth ei chynnwys i bob cyfeiriad. 'Laddwyd neb, wrth lwc, dim ond John Limerick, un o'r teithwyr, wedi anafu ei ysgwydd. Ar y trên ddeg bob bore byddai Mr North y Rheolwr yn rhoi ei dro dyddiol i weld sut yr oedd pethau. Yn y cerbyd 1st Class y byddai o'n teithio yn wahanol iawn i chwarelwyr Glanrafon a deithiai

yn 3rd Class ar seti caled.

Rwy'n cofio enwau rhai o'r trenau: 'Moel Tryfan'; 'Russell'; 'Tryfan Ranger'; 'Welsh Pony' ac yn ddiweddarach, y 'Palmerston', injian â dau ben iddi.

Diwrnod i'w gofio i ni'r plant oedd diwrnod y Gymanfa yng Nghaernarfon. Roedd trefniant arbennig gyda phobl y lein ar gyfer yr achlysur pwysig yma ac roedd pawb i ymgynnull yn Salem i ddal y trên. Athrawon yr Ysgol Sul oedd i ofalu ein bod ni'r plant yn byhafio ac ddim yn cadw gormod o reiat — ond dyn a'u helpo nhw! Amgylchiad arbennig arall a gofiai yw'r un adeg Eisteddfod Genedlaethol 1912, pan ddaeth y trên i fyny'r lein wedi ei haddurno â baneri, a'r gyrrwr yn chwibanu ei bib ar hyd y ffordd gan dynnu sylw pawb. Yr oeddym yn methu deall beth oedd yn bod nes i rywun weiddi o'r trên fod 'hogyn Tŷ'r Ysgol wedi ennill y goron yn y 'Steddod!' Ymhen deuddydd cafodd y trên ddangos ei gorfoledd am yr ail waith am fod 'Hogyn Tŷ'r Ysgol, wedi cyflawni ei ail orchest, wedi ennill y gadair yn y 'Steddod!' — T. H. Parry-Williams.

Byddai cyfarfodydd llenyddol arbennig o dda ym Metws Garmon y pryd hynny a byddai Côr y Bontnewydd yn dod i fyny ar y trên i gystadlu. Byddai bri ar gystadlaethau o'r fath a byddai yna griw o Fetws Garmon yn mynd i gystadlu yng nghyfarfodydd llenyddol ardaloedd eraill. Un tro a chyfarfod yn Rhyd Ddu, roedd tua phump ar hugain o bobl Salem yn disgwyl am y trên i fynd yno. Toc daeth yr injian ond o fewn tair llath i'r fan yr oedd i aros aeth oddi ar y rel. Gwep pawb yn disgyn gan y byddai'n rhaid cael injian arall o Dinas i ddod a'r ger i'w chodi.

Onid heddiw does yr un injian yn rhedeg ar y lein bach. Yn wir, mae'r lein ei hun yn prysur ddiflannu gyda dim ond ambell bost lliidiart yma ac acw i'n hatgoffa am y prysurdeb a fu.

R. O. Pritchard

LLANBERIS

MARW — Yn ddisymwrth, Hydref 8, daeth tristwch mawr dros yr ardal pan glywyd bod Twm Bach Byngalow wedi gadael yr ardal.

Fe adawodd ei fam Mrs Sally Lloyd Jones, 3 Ger Afon, Llanberis a thri brawd a chwaer a lluo o deulu i alaru ar ei ôl.

Cymeriad ynddo'i hun oedd Twm. 'Roedd yn ffrindiau efo pawb ac roedd yn aelod selog o Glwb Methodist Eryri, lle 'roedd yn gofalu am y dŵr i wneud y te. Bydd ei le a'i gwmpeini yn golled.

Rhodddwyd ei weddillion i orffwys ym mynwent Nant Peris. Daeth pobl y Nant yno a hefyd at ei gartref.

Gwasanaethwyd gan y Parch Marcus Robinson yn y tŷ ac yn y Nant.

Gad dy enw ar fy nhafod
Pan ei troi gan angau du;
Dal dy groes o flaen fy llygaid,
Pan fo'n cau ar bethau'r byd:
Derbyn f'ysbryd,
I'th lawenydd dwyfol di.

E.O. Thomas.

BRYSIWCH WELLA — Mr Griffith Owen, 58, Maes Padarn, Mae Mr Owen yn Is-gadeirydd Clwb Methodist Eryri.

DIOLCH — Dymuna Mrs Dilys Kisalu a'r plant ddiolch o galon i'w holl ffrindiau a'r teulu am y caredigrwydd a dderbyniwyd ar ôl dod allan o Uganda.

ENNILL CWPAN — Yng nghystadleuaeth pysgota treialon tîm Cymru a gynhaliwyd yn Nhrawsfynydd enillodd Huw Williams, 7 Stryd Tomos, gwpan arian am y rhif mwyaf o bysgod a'r pysgodyn trymaf. Daliodd 7 brithyll ac un yn pwyso 6 phwys. Golyga hyn y bydd Huw yn aelod o dîm Cymru am y drydedd waith, a bydd yn mynd i'r Alban ym mis Awst i gystadlu dros Gymru.

DIOLCH — Dymuna Eileen ac Ernest plant y diweddar Mrs Ellen Roberts, 6 Stryd Bethesda, Llanberis (gynt) ddiolch o galon i'w perthnasau a'u ffrindiau yn Llanberis a'r cylch am bob arwydd o gydymdeimlad tuag atynt yn eu profedigaeth drist. Diolch arbennig i Canon Alun Jones a Myrddin Pritchard.

Anrheg Nadolig ?

BETH AM YRRU'R ECO
DRWY'R POST AM FLWYDDYN

YN EISIAU

Cadair uchel bren i fabi

Ffôn: Caernarfon 5271

AR WERTH

Coets 'Silver Cross'
gyda 4 olwynt newydd arni.
Lliw: Brown a choffi golau
Mewn cyflwr da.
Hefyd, canopi haul.

Pris £20 neu'r agosaf.

6 Ffordd Deiniol
Deiniolen
Adref rhyw dro ar ôl 3 o'r gloch.

STORFA

Mace

O.R. & M. PARRY

Sgwâr Llanrug

Caernarfon 2790

Dewis hael
o fwydydd, llysiau
a diodydd

AM DRIP CYFFORDDUS, DIOGEL A RHAD
I BLE BYNNAG Y BO

Eric Morris



Bwsiau Arfon LLANRUG

FFÔN WAUNFAWR 254

SIBRYDION O'R YSGOLION

YSGOL BRYNREFAIL

Noson Goffi

Uchafbwynt y mis hwn yn hanes yr ysgol oedd y noson goffi a gynhaliwyd ar y 10 o Hydref. Pwrpas y noson hon oedd codi arian at Gronfa'r Ysgol, oherwydd y cwtogi diweddar a fu o Gronfa'r Swyddfa Addysg. Rhaid dweud bod y noson wedi bod yn llwyddiannus tros ben, a gwnaethpwyd elw o £762, sef £475 ar y raffl, a'r gweddill, sef £286, yn ystod y noson ei hun. Trefnwyd y noson gan Miss Elisabeth Williams a diolchwn i'r athrawon ac i'r plant am eu cymorth, ac am gefnogaeth hael yr ardal oddiamgylch a'u cyfraniad hwythau.

Gorllewin yr Almaen 5 — Cymru 1

Aeth 28 o blant yr ysgol, ynghyd â thri o'r athrawon, Mr Howyn P. Jones, Mrs Selwyn Allsup, a Mr Iwan L. Williams, i weld y gêm fawr yn Cologne yn ystod gwyliau hanner tymor. Siomedig oedd y sgôr ond cafwyd wythnos fythgofiadwy i wneud i fyny am hyn.

FFIBROSIS SYSTAIDD

Bydd meddyg sydd â'i wreiddiau yn y fro, Dr R. Fraser Williams, MBChB, FRC Path., ac arbengiwr yr afiechyd Fibrosis Systaidd yn rhoddi darlith ar y pwnc "Rhagolygon mewn Fibrosis Systaidd" yn yr Ormescliffe, Llandudno nos Fawrth 13 o Dachwedd. Bydd croeso cynnes i rieni, doctoriaid, gweithwyr cymdeithasol, Ffysiotherapyddion diategwyr, nyrsus, ag ymwelwyr iechyd i'r ddarlith.

Brodor o Gwm-y-glo yw Dr Williams ac mae ar hyn o bryd yn Ficro-biolegydd Ymgynghorol yn Booth Hall, ac ysbytai eraill Manceinion. Mae hefyd yn ddarlithydd mewn Bacterioleg ym Mhrifysgol Manceinion.

Yn ystod yr wythnos bu'r grŵp yn aros tu allan i Koblenz yn yr Almaen am dair noson, a threuliwyd dwy noson yn Ostend yng ngwlad Belg. Cawsant flasu ychydig ar Ffrainc hefyd, oherwydd mai'r ffordaith o Dover i Boulogne a gymerodd y grŵp.

Disco

Ar y 5 o Hydref cynhaliwyd disco yn Neuadd yr ysgol. Trefnwyd hwn gan ddisgyblion y 6ed Dosbarth, ac ymwelodd ysgolion eraill â'r disco. Gwnaethpwyd elw arbennig o dda, a bydd hwn yn helpu'r chweched dosbarth i gynnal parti Nadolig i blant Pendalar ar ddiwedd y flwyddyn.

Paratoadau'r Eisteddfod.

Y mae hefyd baratoadau a threfniadau prysur yn mynd ymlaen ynglŷn ag Eisteddfod yr Ysgol. Mae'r disgyblion oll yn gweithio'n galed i gael popeth yn barod erbyn y noson gan nad yw'r Eisteddfod ond mis i ffwrdd ar y 21 o Dachwedd. Mae cystadleuaeth newydd eleni, sef cystadleuaeth dawnio gwerin i'r plant iau.

*Annwyl Olygydd,
Yn rhifyn diwetha o'r Eco, o dan lun plant Ysgol Llanrug — tud. 9 mae cwestiwn, sef "I ble'r aeth 'waves' Mr Leslie Larsen" — wel dyma'r ateb — I union yr un lle ag aeth 'curls' Mr Selwyn Morris, Becws, Gors Bach, Cwm-y-glo. Gwelir Selwyn ar y rhes uchaf y chweched o'r chwith.
Yr eiddoch yn gywir.
Un o blant y fro !!*

*Annwyl Syr,
'Rydym yn dechrau cyfres newydd ar Radio Cymru rhwng unarddeg a hanner dydd ar fore Llun o Dachwedd 19 ymlaen. Fe fyddwn yn ddiolchgar iawn os allech chi roi tipyn o sylw i'r ffaith ein bod ni'n croesawu ceisiadau a chyfarchion i'r rhaglen.*

Y cyfeiriad i anfon atom yw 'Llatai', Radio Cymru, BBC, Llandaf, Caerdydd.

Diolch yn fawr.

*Yn gywir,
Eurof Williams,
Cynhyrchydd Radio Cymru.*

Taith i'r Gofod

(Parhad)

Gan Bethan Wyn Jones

Ond, 'roedd yn rhy hwyr iddo weiddi ac ysgyrnygu dannedd a thynnu ei wallt. Am y daith o'r lleuad i'r ddaear, gwnaeth pawb ffrindiau arbennig o dda ac addewai pawb ledu'r stori am i neb fynd i'r Gofod a glanio ar y lleuad.

"Mi ddyweda' i wrth bawb," meddai Modryb Meri, "yr ydwyf fi wedi dioddef digon gan y brenin haerllug."

"A minnau hefyd," atebodd un arall.

Cefais wybod ble'r oedd pawb yn byw. 'Roedd rhai yn byw ym Melindre ac eraill ym Melin-y-coed, ond Modryb Meri oedd yr unig un o Bentre'r Felin.

Dywedodd y gyrrwr stori am yr hyn a welodd yn ystod yr amser yr oeddem ni yn gweinyddu ar y brenin. Meddai'r gyrrwr:

"Yn union ar ôl i chwi fynd i mewn trwy'r porth, daeth un-ar-dddeg o bobl bach gwyrdd gyda Crysau-T coch a gwyn, a dechrau chwarae pêl-droed. 'Roedd yn wahanol i'r pêl-droed yr ydym ni yn wybod amdano. 'Roeddynt yn gafael yn y bêl ac nid yn ei chicio."

"Wel, pêl-rwyd ydyw hynna," meddwn i.

"Disgwylia i mi orffen, nid rhwydau fel mewn pêl-rwyd oedd yna, ond rhwydau fel sydd ym mhêl-droed."

Wel, ar ôl ychydig amser cyrhaeddodd y roced yr Orsaf Rocedi, 'roedd y trip yma wedi bod yn drip bythgofiadwy. Dylsai'r roced fod yn yr orsaf ers deng awr ond am yr anffawd bach a ddigwyddodd. Diolch bod y gyrrwr yn un clên, fe fuasai rhai gyrrwyr wedi mynd o'r blaned rhag ofn i rhywbeth ddigwydd iddynt hwy.

Wel, diolch i'r gyrrwr neu fe fuasai neb ohonom yma 'nawr. Wel, 'roedd y daith i'r Gofod yn daith fythgofiadwy, ac 'rwyf yn edrych ymlaen am Eco'r Wyddfa mis nesaf. Efallai bydd yr holl hanes ynddo.

Y DIWEDD

NOS SADWRN YMA

*Pwyllgor Carnifal Llanberis
yn cyflwyno*

CYNGERDD

gyda

CÔR TELYN TEILO

a

HOGIA'R WYDDFA

(Gŵr gwadd: Mr Iorwerth Ellis)

yng

NGHAPEL COCH

Nos Sadwrn, Tachwedd 3

i ddechrau am 7.30 o'r gloch.

Pris: Oedolion £1.

Pensiynwyr a phlant 50c

Tocynnau gan

*Mr Alwyn Thomas, Foelas,
Stryd Newton (Llanberis 220)
ac mewn siopau lleol.*

Y DIWEDDARAF AM GWCH LLYN PERIS

A ninnau ar fin cyhoeddi'r Eco clywsom fod yr arbenigwyr 'nawr yn ystyried y gallasai'r cwch fod rhwng tri chant ac wyth gant oed.

*Annwyl Olygydd,
Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddwyn sylw darllenwyr Eco'r Wyddfa at y Ganolfan Genedlaethol i Llenyddiaeth Plant a sefydlwyd yn ddiweddar yn Aberystwyth gyda chymorth Cyngor Celfyddydau Cymru. Mae canolfannau cyffelyb mewn nifer o wledydd ledled y byd ond hon yw'r Ganolfan gyntaf o'i bath yng Ngwledydd Prydain. Er bod y canolfannau hyn yn amrywio rhywfaint yn eu hamcanion y maent i gyd yn dangos cefnogaeth sylweddol i'r angen am astudio, datblygu a hyrwyddo darllen plant.*

Bwriad y Ganolfan fydd casglu a gwarchod llyfrau a chylchgronau cyfoes ac adolygol a gynhyrchwyd ar gyfer plant Cymru yn ogystal â llawysgrifau awduron a darluniau gwreiddiol. Y gobaith yw y tyf y Ganolfan, maes o law, yn ganolbwynt i bawb sy'n ymddiddori yn y maes, yn rhieni, athrawon, awduron, llyfrgellwyr, cyhoeddwy, cynhyrchwyr radio a theledu — heb anghofio'r plant eu hunain, wrth gwrs.

Os oes gan ddarllenwyr hen lyfrau a chylchgronau y byddent yn fodlon eu trosglwyddo i'r Ganolfan er budd plant Cymru byddwn yn falch o glywed ganddynt, a gellir cysylltu â mi yn y cyfeiriad uchod. Diolch yn fawr iawn.

Yn gywir,

*Menna Lloyd Williams,
Trefnydd,
Canolfan Genedlaethol Llyfrgell Plant*

*Annwyl Olygydd,
Fel un o'r disgyblion yn y llun a anfonwyd gan Beti Roberts, 'Refail, Llanrug o blant yr Ysgol Ganol, hoffwn roddi enwau rhai ohonynt yn dechrau o'r chwith ar y rhes uchaf. Huw Gwynfa Roberts, Hedsor Villa sydd yn awr yn Weinidog yn Manceinion; Evan Humphreys o Danycoed; y bachgen â'i ben i lawr ni allaf ei wneud allan, ond wrth ei ochr mae Myrddin Dawson, Pengreuer; a Selwyn Pritchard. Y gyntaf o'r merched o'r chwith yw Ethel Owen; Eilir Jones; Katie Roberts; Beti Williams; Gladys Humphreys; Betty Jones (Madryn); Gwerfyl Pritchard; ond nis gallaf wneud allan yr eneth ar ben y rhes.*

O'r chwith eto, y rhes isaf yw Neville Roberts (Eryri); Howell Jones (Afonrhos); Gwynfor Owen (Bryn Eryr); Griffith Ithel; Griff Owen; finnau: Leslie Jones; Owen Llewelyn sydd yn feddyg yn Llanfair Talhaearn, y bachgen pen melyn nid wyf yn ei gofio, ac ar y pen mae Gruffydd Arfon (Gitts)


Efallai bydd rhai o'm cyddisgyblion yn cofio rhai a adewais allan. Diolch yn fawr Beti.

*Yr eiddoch yn gywir,
Walter Jones, (Parc) gynt.
26 Nantglyn,
Cyffordd Llandudno.*

O.N. Yr wyf yn meddwl mai yr amser oedd 1935 ac L.M. Hughes oedd yr athrawes.

Cyfres y Fodrwy

STORIAU
CARU



AR GAEL
25 HYDREF

AR GAEL O'CH SIOP LYFRAU LEOL pris 50c yr un

Llannerch Y Llenor

gan SELWYN GRIFFITH



Mae mis Tachwedd — mis y tuchan ar ein gwarthaf eto. Bobol tydi blwyddyn yn llithro ymaith yn sydyn d'udwch!

Cefais fy nghladdu yn orfoleddus yr wythnos diwethaf dan bentwr o gyfansoddiadau llenyddol Eisteddfod 'atgyfod-edig' Llanrug. Treuliais oriau difyr yng nghwmni'r plant yn darllen eu storïau am Dîm pêl-droed, a Teganau, ac yn darllen dwsinau o lythyrau a ysgrifennwyd ganddynt 'at arwr neu arwres deledu'. Y plant yn 'sgwennu'n bersonol at Batman, Bionic Woman, Dr Who, ie, a hyd yn oed at Blankety Blank. Wrth gwrs, 'roedd 'na ambell un yn cyfarch Teliffant a Phlwmisan hefyd.

Mae'n debyg y gellir cynnwys Dai Davies, Mici Thomas a Gareth Davies fel arwyr teledu plant hefyd, er wn i ddim be dd'wedai Dai o dderbyn llythyr fel hyn chwaith:

Annwyl Dai Davies,
Sut 'rydach chi'n cadw. Mi 'rydach yn cael hwyl ar chwarae rygbi. Pan 'rydych ar y teledu, 'rydych yn sgorio gôl mewn bob un gêm. Y peth 'rydw i yn hoffi mewn gêm rygbi yw y plant yn rhedeg at ben eich chwareuws.
Cofion cynnar (— ie cynnar!)
Bob

Wel, ardderchog 'te. Dychymyg a chymysgedd naturiol plentyn.

'Roeddwn i'n falch o weld brychau iaith yn ngwaith y plant, oherwydd fod hyn yn profi mai gwaith gwreiddiol y plant a dderbyniais.

O feirniadu fwy nag unwaith yn adran farddoniaeth Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, mae'n amheus iawn gen i ai gwaith gwreiddiol plentyn a dderbyniwn bob amser, yntau gwaith wedi ei gaboli gan athro neu riant.

Ond ta waeth 'roedd gwreiddioldeb plant Llanrug yn codi calon rhywun, yn enwedig yn y dyddiau anniddig hyn p'ryd y mae cymaint o bryder ynglŷn â dyfodol ein hiaith.

Dyma chi enghraifft arall. Un sy'n galw ei hun yn Lili Wen Fach yn 'sgwennu am 'Dîm Pêl-droed'.

"Fe es i'r dre i wyllo'r pêl-droed rhwng Llanberis a Groeslon. A Llanberis nath ennill, a wedyn dyma pawb yn chwerrthin ac ma nhw yn deud Hwrê! Hwrê!, a wedyn dyma ni yn mynd adra. Wedyn dyma ni yn gwyllo'r teledu rhwng Wrecsam a

Llandudno, a dyma Wrecsam yn ennill, ond dyma Llandudno yn colli."

Ardderchog, yntê, — halen y ddaear, a dwy gêm werth chweil i *Match of the Day*, sef Llanberis v Groeslon, a Llandudno v Wrecsam.

Oedd, mi 'roedd 'na oedolion yn cystadlu yng nghystadlaethau llenyddol prifwyl Llanrug hefyd, ond fiw i mi ddadlennu cyfrinachau gan y bydd yr Eco allan ychydig oriau cyn y 'Steddffod.

Gallaf ddadlennu hyn, sef i mi gael gwaith ardderchog o ganmoladwy bron ymhob cystadleuaeth, a mawr hyderaf mai nid Eisteddfod Llanrug fydd yr unig un i 'atgyfodi' ym mro'r Eco.

Darllenwn 'Hen Atgofion', W.J. Gruffydd i atgoffa'n hunain bod yna draddodiad Eisteddfodol dwfn i'r hen ardaloedd hyn, ac mae'n ddyletswydd arnom ninnau gadw'r hen draddodiadau hyn yn fyw, yn enwedig yn y dyddiau anniddig hyn, "fel y cadwer i'r oesoedd a ddêl y glendid a fu."

Gyda llaw, mi fydda' i yn darllen 'Hen Atgofion' unwaith bob blwyddyn, a wyddoch chi be, mi fyddai'n gweld rhywbeth newydd ynddo bob tro.

Edrychaf ymlaen yn ystod mis Tachwedd, mis y tuchan at gael ymweld â 'Steddffodau Llansannan, Llanrhaeadr ym Mochnant, Llanaelhaearn a Harlech.

Er gwaethaf anniddigrwydd a phryderon, mae 'na le i lawenhau hefyd onid oes?

CORAU LLANBERIS

Daeth yr hen luniau ac erthyglau ar ganu yn y fro â myrdd o atgofion i laweroedd. Agorodd y llifddorau a daeth pentwr drwy'r post at y golygydd. Trown ein sylw y tro hwn at gorau Llanberis a rhoi gofod i'r deunydd yn bennaf a yrodd Mr Emrys Owen o Lanberis gynt ond sydd erbyn heddiw yn brifathro yng nghanolbarth Lloegr.

Daeth lluniau corau'r chwarel ag atgofion melys i Emrys. Gyrrodd y llun a ganlyn o Gôr Meibion Wellington.



Sylwch ar wisgoedd yr aelodau. Siwtia gwaith gan y mwyafrif. O sylwi'n fanwl mae'r un siâp hefyd i'r capiau a'r hetiau. Gall Emrys enwi rhai ohonynt. Dyma enwau rhai o'r dynion sy'n eistedd, o'r chwith i'r dde: Evan Lloyd, Wil Meic, Bob Llwyd (Brawd Evan Lloyd), Lei Bach, Ellis Jones (Maes Llwyn), Sarjant Toleman, Charles Owen, Harri Hughes Bron Eryri. Enwau rhai o'r dynion sy'n sefyll: Tad Emrys Owen efo'r wasgod ffansi a'r sigarê, John Thomas o Cwm-y-glo fyddai yn arwain Cymanfa Ganu'r Annibynnwyr, Gruffydd Owen, Huw Parry, Wil Bach Coed, Siôn Go, Nowi Huws. Enwir rhai yn ôl eu llys enw — o anwylddeb y gwneir hyn wrth gwrs gan ei bod yn haws i'w hadnabod felly.



Dyma lun côr un o gerddorion enwoca'r fro — y diweddar Charles Owen, tad Mr Aled Owen arweinydd Côr Mawr Llanberis. Tynnwyd y llun yng ngorsaf y rheilffordd Llanberis ond nid yw Emrys yn sicr p'run ai cychwyn yntau dychwelyd o rywle yr oeddynt. I ble 'roeddynt yn mynd neu o ble roeddynt yn dychwelyd? All rhywun roi gwybod i ni? Tua'r flwyddyn 1912 oedd hi.



Dim oedi rhagor

AR RAN MUDIAD ADDYSG
GYFLAWN GWYNEDD: Mae'r Mudiad hwn, sy'n cynrychioli rhieni Gwynedd, yn dilyn y ddeiseb o 1420 o enwau a gyflwynwyd i Awdurdod Addysg Gwynedd yn gofyn am addysg uwchradd drwy'r Gymraeg, yn galw eto ar i'r Awdurdod Addysg wneud addysg drwy gyfrwng y Gymraeg yn 'norm' yn ysgolion uwchradd y sir. Os oedir llawer rhagor, mi fydd yn rhy hwyr i hyn fod yn bosibl gan fod ansawdd Cymraeg llafar plant ysgol yn dirywio'n gyflym a'r mewnlifiad o bobl uniaith

Saesneg i'r sir yn dal i gynyddu.
AR RAN MUDIAD ADDYSG
GYFLAWN ARFON: Mae MAGA yn croesawu'r gwelliant a fu yn sefyllfa dysgu drwy'r Gymraeg yn y flwyddyn gyntaf yn Ysgolion Caernarfon, Brynrefail a Dyffryn Nantlle. Ond yr ydym yn bryderus fod nifer o blant sy'n dymuno cael addysg drwy'r Gymraeg yn y dosbarthiadau uwch yn methu â gwneud hynny, neu'n gorfod cyfieithu eu nodiadau eu hunain. Mae hyn yn gosod pwysau hollol annheg ar y plant ac hefyd yn sicrhau mai nifer fechan yn unig

sy'n dewis gwneud pynciau drwy'r Gymraeg.

Galwn ar yr Awdurdod Addysg i sicrhau fod pob plentyn sy'n dymuno cael ei addysg drwy'r Gymraeg yn cael gwneud hynny, ac i sicrhau fod dilyniant sicr yn y pynciau a ddysgir drwy'r Gymraeg yn y flwyddyn gyntaf eleni drwy'r ysgol o hyn ymlaen.

Arial Thomas (Cadeirydd) — Llanwnda 830 276
Huw Jones (Is-gadeirydd) — Llanwnda 830 640
Dafydd Iwan (Ysgrifennydd) — Penygroes 730.

PLAS TAN Y BWLCH MAENTWROG CANOLFAN ASTUDIO PARC CENEDLAETHOL ERYRI

Cyfres o gyrsiau penwythnos dros gyfnod y gaeaf.

Hydref 12fed — 14eg : 'Y Cysylltiadau Celtaidd'.
Tachwedd 9fed — 11eg : 'Adaryddiaeth Ymarferol'.
'Chwarelyddiaeth'
Rhagfyr 14eg — 16eg : 'Cynhyrchu Drama'.
Ionawr 12fed — 13eg : 'Cyfreithiau Hywel Dda'.
Chwefror 8fed — 10fed : 'Twristiaeth mewn Ardaloedd Gwledig'.
Chwefror 15fed — 17eg : 'Gwlân Cymreig'.
Mawrth 7fed — 9fed : 'Llên Gwerin a Gwyddoniaeth'.

Anfoner am fanylion llawn i :

P.O. Bocs 1
Blaenau Ffestiniog,
Gwynedd LL41 3YU

WIL a VAL GUY TREFLYN STORES BETHEL

Bwydydd, Melysion, Teganau a
Diodydd ac yn awr dewis o
Ddillad Plant
Y FELINHELI 670 237

AU BERIS

anu yn y fro â myrdd o atgofion
 daeth pentwr drwy'r post at y
 t gorau Llanberis a rhoi gofod i'r
 s Owen o Lanberis gynt ond sydd
 lbarth Lloegr.

gofion melys i Emrys. Gyrrodd y
 t.



wtia gwaith gan y mwyafrif. O
 i'r capiau a'r hetiau. Gall Emrys
 hai o'r dynion sy'n eistedd, o'r
 Bob Llwyd (Brawd Evan Lloyd),
 Sarjant Toleman, Charles Owen,
 o'r dynion sy'n sefyll: Tad Emrys
 John Thomas o Cwm-y-glo fyddai
 wyr, Gruffydd Owen, Huw Parry,
 Enwir rhai yn ôl eu llys enw — o
 an ei bod yn haws i'w hadnabod



voca'r fro — y diweddar Charles
 Côr Mawr Llanberis. Tynnwyd y
 is ond nid yw Emrys yn sicr p'run
 e yr oeddynt. I ble 'roeddynt yn
 welyd? All rhywun roi gwybod i



Agor

Ffiniau'r Gorffennol

gan Mary Lloyd Williams, B.E.M.

TOM JONES Y PENGARDDWR

Yn ei ardd yn bengarddwr — drwy'r
 radio

Yr ydoedd yn gampwr:
 Gweledydd craff a gwladwr
 Amryddawn ac uniawn ŵr.

J.O. Williams

'Rwy'n clywed mewn atgof y
 funud hon lais swynol, melodaidd
 y diweddar Tom Jones yn siarad
 ar y radio ar arddio er bod ryw
 ddeugain mlynedd wedi pasio.
 Tom Jones naturiol a
 diymhongar ydoedd yn ei sgwrs
 nid yn unig ar y radio ond ym
 mhob man — ei Gymraeg yn
 groyw, ei barabl yn glir, ei ddull
 yn hamddenol, yn llawn hiwmor
 ac arabedd, gyda chyffyrddiadau
 bach slei wrth fynd heibio, fel pe
 tae.

Yr oedd ef ei hun yn caru'r
 ardd yn angerddol, ac yn ei ffordd
 nodweddiadol ddirodres enillodd
 filoedd yng Nghymru i garu eu
 gerddi ac i sylweddoli lle mor
 werthfawr ydyw'r ardd. Mae'n
 fater o fywoliaeth i lawer ac yn
 ffynhonell o gysur a mwynhad i
 filoedd.

Gwrandewch!

"Sut yr ydych chi i gyd? Sut hwyl
 yda chi yn gael yn yr ardd y
 dyddiau hyn? Oes rhai ohonoch
 wedi llwyddo i balu a throi'r tir
 cyn y rhew caled a gafwyd yn
 ddiweddar. Y mae Mr Rhew yn
 gampwr am drin tir, pob math o
 dir. Mae llawer ohonoch yn tybio
 bod Mr Rhew yn medru lladd
 pryfed sy'n y ddaear. 'Does yna

ddim sail o gwbl i obeithio hyn,
 oherwydd fe dry'r rhew a'r eira
 yn gysgod i'r pryfed a rhwystra
 i'r adar eu difa. Nid wyf yn
 meddwl y lladd rhew yr un
 falwen. 'Rwyf am ddweud 'secret'
 bach wrtha chi" — ac ymlaen â
 fo, a holl Gymru yn gwrando'n
 astud, rhag ofn colli gair, (cewch
 wybod y 'secret' mis nesaf).

Ganed Tom Jones yng
 Nghaeathro Bach ar Awst 20,
 1869. Enillodd ysgoloriaeth i
 Ysgol Friars Bangor o ysgol yng
 Nghaernarfon yr un adeg â'r
 Athro Hudson Williams, ond
 oherwydd amgylchiadau teuluol
 nid aeth yn ei flaen. Ond
 derbyniwyd ef yn ddisgybl athro
 gyda Joseff Thomas (Cwm-y-glo)
 yn ysgol Caeathro. Dysgodd lawer
 iawn oddi wrth Joseff Thomas a
 phasiodd arholiadau Solffa o dan
 ei hyfforddiant. Oherwydd
 cefndir amaethyddol ei dad a
 edrychai ar ôl y stoc yng
 Nglangwna ac a hanai o deulu
 amaethyddol yn Sir Fôn aeth i
 Erddi Masnach 'Bees' yng Nghaer
 i gael ei brentisio fel garddwr, ac
 fel garddwr yr adwaenid ef yn
 bennaf. Bu gyda'r teulu
 Darbyshire ym Mhenybryn ger
 Caernarfon am ugain mlynedd.

Tra'n byw ym Mhenybryn
 ymaelododd yng Nghapel Beulah
 Caernarfon a daeth o dan
 ddylanwad y Gweinidog llengar
 Anthropos a'i hysgogodd i
 lenyddia. Ysgrifennodd llyfr o



Un o gorau mwyaf llwyddiannus bro'r Eco oedd Côr Merched
 Llanberis. Mae sawl wyneb cyfarwydd yn y llun yma a gobeithio y
 cewch chwi ddarllenwyr Eco'r Wyddfa oriau o fwynhad yn cofio a
 blasu unwaith eto beth o rin y gorffennol. Yr arweinydd oedd y
 diweddar William James BA, Mus. Bach, a'r is-arweinydd, y diweddar
 Mr D. Jeffrey Owen LTSC.

Rhagflas yw'r uchod i gyfres o atgofion gan Miss Morfudd Evans a fydd
 yn ymddangos yn y rhifynnau nesaf o Eco'r Wyddfa.

straeon byrion 'Mynd i'r Môr'.
 Gwerthwyd miloedd o gopiâu —
 un o'i hen gyfeillion, yr enwog
 Dic Huws Williams, pencampwr
 stori fer, 'sgrifennodd Ragair i'r
 llyfr. Daeth yn aelod o Gwmni
 Drama hefyd. Yr oedd yn un a
 gychwynnodd Ŵyl. Fai Beulah
 sydd yn dal i fynd.

Ymunodd â Chwmni Drama'r
 Ddraig Goch gyda'r actor gwyh
 Gwynfor yn gynhyrchydd. Yn
 ystod y Rhyfel apwyntiwyd ef fel
 Arolygydd gyda'r weinyddiaeth
 Amaeth a daeth i fyw i Lanrug yn
 1917 i hen gartref ei wraig
 Tyddyn Rhuddallt. Ymaelododd â
 chapel Pontrhythallt a bu am
 flynyddoedd yn cynhyrchu
 dramâu gyda Chwmni'r Capel.
 Bob blwyddyn byddai Gŵyl
 Ddrama Pontrhyddallt yn Neuadd
 yr Eglwys, Llanrug ac âi'r elw at y
 capel. Trwy weithgarwch y
 Cwmni Drama y codwyd y
 Festri.

Yn ystod y Rhyfel diwethaf
 darganfu Sam Jones BBC ef a
 bu'n darlledu o Fangor, ar arddio
 yn wythnosol. Fe'i gelwid yn
 'Welsh Middleton' a ddarlledai'n
 Saesneg, ac a wnâi yr un gwaith
 ag ef yn Lloegr.

Cymerai ran mewn dramâu ar y
 Radio hefyd a gofidiai Sam Jones
 nad oedd wedi gwneud record
 o'i lais.

Cyhoeddwyd llyfr o'i sgysiau
 Radio 'Yn Yr Ardd' yn 1947 gyda
 Rhagair gan y diweddar J.O.
 Williams, Bethesda. Cymwynas
 werthfawr oedd cyhoeddi'r
 sgysiau hyn yn gyfrol ddestlus yn
 cynnwys deunaw pennod, a'r
 rheiny yn llawn o awgrymiadau
 gwerthfawr ar bopeth o bwys a
 berthyn i'r ardd. Ar dudalen flaen
 y llyfr y mae llun yr awdur yn
 ei ardd yn bengarddwr ys dywed
 yr englyn bach cryno iddo ar y
 dechrau.

Yn sydyn fore Mawrth, Hydref
 31, 1944, bu farw Tom Jones, a
 chladdwyd ef y dydd Gwener
 dilynol ym mynwent newydd

Heb os, pe cawsai Tom Jones
 ddewis y tymor i ffarwelio â'r
 ardd a mynd i orffwys oddi wrth
 ei hoff waith buasai wedi dewis yr
 Hydref, pan oedd y "ddaear yn
 llawn o'i Ogoniant Ef, a holl goed
 y maes yn curo dwylo."

Y mae merch hynaf Mr a Mrs
 Tom Jones sef Mrs Eddie Owen
 yn byw yn Southport a'r ferch
 ieuengaf Mrs W.A. Jones yn y
 Dalar Deg, Llanrug. Bu farw yr
 ail ferch Mrs Annie Pierce Owen
 rai blynyddau'n ôl.

TEYRNGED

Mewn tangnef a llwydd hefyd
 Athraw y bobl aeth o'r byd.

Athraw fu'n weithiwr o'i fodd —
 Edmygai'r wlad a'i magodd.

Er mewn bedd ei rinweddau
 I'w Gymru hoff ga'u mawrhau.

Ieuan Ionawr.

Oedd ddenol ymddiddanwr
 Yn abl ei waith, nobl ŵr.

T. Owen.

Y mis nesaf bydd Detholion
 o'r llyfr 'Yn Yr Ardd' gan Tom
 Jones.

STORI 'DIN'

Isod gwelir rhan o adroddiad Prif Swyddog Iechyd yr Amgylchedd i'r Pwyllgor Iechyd a gynhaliwyd ar y 25 o Orffennaf.

Rhestru y mae naw o gwynion a dderbyniwyd ynglŷn â bwyd afiach.

Pryfyn mewn teisen
Mater dieithr mewn siocled
Bwyd Babanod — arogl drwg.
Pryf wedi glynu mewn fferins
Arogl a smotiau gwyn ar bysgod
Pryfyn mewn wŷ hufen
Sgrif-bin Biro mewn torth
Arogl aflan o din samwn
Cynhonyn byw mewn oren

TÎM CRICED ARALL MR JAMES



Hywyn Jones, G. Eric Jones, Ifan Aled Jones, Rasmus Williams, H. Berwyn Jones, Gareth W. Williams, Rolant F. Williams, Gwyndaf Parry, Gwilym Owen Jones, Cledwyn P. Jones, John E. Roberts, Emllyn Davies, Ieuan L. James.

Llun trwy garedigrwydd Mr Bobby Roberts, 96 Pentre Helen, Deiniolen.

TYRCWN,
GWYDDAU,
IEIR

AR GYFER
Y NADOLIG —

Bydd y rhai
gorau eto
eleni yn siop

**Wavell
Roberts**

LONDON HOUSE
LLANRUG

Pen Cigydd y Fro!

Archebwch rwan!



**E. & E.M.
GREEN**

**SIOP
GRON**

A SWYDDFA'R POST

PENISARWAUN

Ffôn: PADARN 272

YN EISIAU

Hen Lyfrau Cymraeg

Pob peth newydd ar gael fel arfer

LLYFRAU — RECORDIAU — CARDIAU

**SIOP
Y PENTAN**

YR HEN FARCHNAD, STRYD Y PALAS
CAERNARFON (Ffôn: 5262)

BRYNREFAIL

CLWB PEDWARUGAIN — Enillwyd mis Medi — Medi 7: 1. Wil Hughes; 2. Alwyn Roberts; 3. Margaret Jones. Medi 14: 1. Pat Jones; 2. Sheila Williams; 3. Betty Owen (Llwyncoed Bach). Medi 21: 1. Jackie Jones; 2. Maldwyn Jones; 3. John Williams. Medi 28: 1. Dwynwen Owen; 2. Eifion Roberts; 3. Mary Roberts.

SEFYDLIAD Y MERCHED — Mewn cyfarfod ar y 18 o Hydref, daeth 9 aelod ynghyd a chafwyd noson ddiddorol dan ofal Mrs Pat Jones. Enillwyd yr ornest gan Jennie Williams a Gwyneth Jones. Rhoddwyd y te gan Mair Williams a Jennie A. Roberts a diolchwyd iddynt gan Jennie Williams. Rhoddwyd gwobr y mis gan Pat Jones ac fe'i enillwyd gan Jennie Roberts. Anfonwyd cofion at Nerys, merch Mrs Jennie Hughes, gan ddymuno bod y plant yn gwella.

CLWB Y MAMAU — Cafwyd cyfarfod yn Nhy Glas ar y 10 o Hydref pan gafwyd noson dan ofal Moira Ellis. Rhoddwyd y te gan Sylvia Williams a Dorothy Jones a rhoddwyd anrheg y mis gan Jill Harris ac fe'i enillwyd gan Sylvia Williams.

Mae trip bws i Gaer wedi ei drefnu at y 10 o Dachwedd, bydd y gost oddeutu £1.50. Derbynnir enwau gyda thaliad o 50c gan Mrs Jackie Jones, 1 Tai Orwig.

CLWB REFAIL — Mewn cyfarfod yn Nhy Glas ar 16 o Hydref daeth nifer o aelodau ynghyd yng nghwmni Mrs Gladys Evans, Gallt y Foel. Traddodwyd hen atgofion diddorol drwy gyfrwng penillion a storïau.

YMWELIAD — Disgwylir Mr Bryn Williams, Bryn Melyn gartref o'r Unol Daleithiau am ychydig ddyddiau dros y Nadolig. Edrychwn ymlaen am ei gwmni dros yr ŵyl — fe ddaw at ei rieni i Fryn Melyn o'r 22 o Ragfyr hyd y 1 o Ionawr.


NOSON TÂN GWYLLT — Yn y cae chwarae ar y 5 o Dachwedd fe geir tân gwyllt a choelcerth dan nawdd Clwb Pedwarugain. Erfynnir ar rieni a phlant i gefnogi'r noson hon mewn diogelwch, yn hytrach na rhoi plant mewn perygl. Fe wneir casgliad o dŷ i dŷ ychydig ddyddiau cyn y 5 o Dachwedd.

GWAELEDD — Dymunwn adferiad buan i bawb o'r pentref a fu'n wael ei iechyd yn y mis aeth heibio. Da yw clywed bod Mrs Braham, Deiniol House wedi dychwelyd o'r ysbyty, a gobeithiwn weld Mr Hasson, Bryn Myfyr adre'n ôl yn fuan hefyd.

PROFEDIGAETH — Brawychwyd y pentref ar yr 20 o Hydref o glywed am farwolaeth Mr Edwin Gwynedd Jones

(Ned Cytir) yn 61 mlwydd oed. Mae ein cydymdeimlad dwys gyda'r teulu oll yn eu profedigaeth.

PENCAMPWR CANERIS — Cychwynnodd Arthur Jones, 5 Tremellian gyda'i ddiddordeb mewn caneris ym 1967 ac bellach fe'i cyfrifir yn arbenigwr gydag adar o'r math yma. Yn ogystal a chystadlu'n llwyddiannus ers llawer blwyddyn, mae hefyd yn feirniad. Mewn cystadleuaeth ym Modedern, Ynys Môn ar y 6 o Hydref, fe enillodd gyda'r ceiliog gwyn gorau. Mae gan Arthur amryw o adar mewn cwt yn yr ardd gefn wedi ei addasu ar gyfer y gwaith ac mae yn treulio oriau o'i amser hamdden yno. Mae Arthur yn cystadlu eto yn y Rhyl ar y 27 o Hydref ac yn nes adref yn y Felinheli ar y 24 o Dachwedd. Pob hwyl iddo yn y ddwy sioe.



LLONGYFARCHION — Mewn cyfarfod o'r rheolwyr yn Ysgol Cwm-y-glo ar y 2 o Hydref, fe gyfeiriwyd gan y Cyngorydd Francis Jones at y gwaith rhagorol a wnaed gan y plant yn y pasiant 'Beibl y Plant' yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Diolchwyd hefyd i'r athrawon a fu'n hyfforddi'r plant.

CLUDO PLANT I'R YSGOL — Fe ddymuna rhieni a thrigolion y pentref ddatgan eu diolch i'r rhai a fu'n ymdrechu ar ein rhan gyda'r mater yma. Yn arbennig fe ddylem ddiolch i'r ddau gynghorydd Mrs Pat Larsen a Mr Francis Jones ac hefyd i'r prifathro Mr E.T. Jones.

DIOLCHGARWCH — Cafwyd tri gwasanaeth yn y Capel gyda gwasanaethau'r bore a'r hwyr yng ngofal y blaenoriaid, a gwasanaeth y prynhawn yng ngofal plant yr Ysgol Sul. Cafwyd casgliadau sylweddol yn ystod y dydd, a diolchwn i bawb am eu cefnogaeth, ac yn enwedig y plant a'r rhai fu'n eu hyfforddi.

W.J. GRIFFITH

PLYMAR
A GOSODWR
GWRES CANOLOG

PANT TIRION, LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 3248

GOSODWR SWYDDOGOL
SYSTEMAU
GWRESOGI OLEW



BP heat
A SHELL-MEX

Dim un dasg rhy fychan,
Dim un dasg rhy fawr.

LLANBERIS

DIOLCH — Dymuna Mrs C. Jones, 'Penlôn' ddiolch o galon i bawb am yr holl gardiau ac anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd yn 80 oed.

Hefyd dymuna Mrs Mary Thomas, 'Gwynant', Rhes Olgra ddiolch yn gynnes iawn i'w theulu, cyfeillion a chymdogion am y caredigrwydd a dderbyniodd tra yn ysbyty Môn ac Arfon, Bangor.

I'R COLEG — Cychwynnodd Bryn Jones, Dôl Elidir ar ei yrfa ym Mhrifysgol Bangor, hefyd mae Gillian Williams, Peter Roberts a Linda Owen wedi dechrau yn y Coleg Technegol ym Mangor.

Dymunir iddynt bob llwyddiant.

RAFFL — Mawr yw diolch Pwyllgor y Carnifal i Mr William Owen, Lôn Glai am ei rodd o oen i'w roi ar raffl er budd y carnifal.

Ennillwyd y raffl gan Mrs Ceinwen Williams, Rhes Cambrian — rhywbeth gwerth ei ennill yntâl!

CROESO — Yn ystod yr haf bu Michael Owens a'i briod drosodd ar eu gwyliau yn yr hen ardal o'u cartref yn Pilgrims Rest, De Affrica, lle mae Mr Owens yn gweithio fel rheolwr gwaith aur.

Mab i'r diweddar John Michael Owen, Llwyncoed ydyw, ac mae yn gefnder i Mrs Bet Evans, Rhes Minafon. Estynnwyd groeso cynnes iawn iddo gan ei gyfeillion; a chofio ei fod wedi gadael yr ardal dros 60 mlynedd yn ôl, hyfryd iawn oedd gwrandao arno yn sgwrsio mewn Cymraeg pur.

Mae dau arall o blant y diweddar John Michael Owen — Jessie a Fred y ddau yn byw yn Yr Orange Free State, De Affrica.

CYSTADLEUAETH BYSGOTA — Dydd Sadwrn, Medi 22, cynhaliwyd Cystadleuaeth Bysgota ar Lyn Padarn.

Yn affodus nid oedd neb ddigon llwyddiannus i ennill y brif wobr sef 'Cwpan Padarn'. Enillwyd 'Dosbarth B' gan Mr Tom Griffiths, 2 Bro Glyder, Nant Peris. Yn 'Nosbarth C' — dosbarth y plant, 1. Timothy Jones, Tan-y-graig, Bethesda; 2. Neil Jones, 2, Dôl Elidir, Llanberis.

Gwobrau Arbennig: Pysgodyn Trymaf — Timothy Jones. Cwpan Brymer (Plentyn lleol) — Neil Jones.

PLAID CYMRU — Yn y Pwyllgor Blynnyddol o'r gangen leol, penodwyd y swyddogion am y flwyddyn nesaf: Llywydd: Mr Bert Parry. Ysgrifennydd: Mrs Ann Pritchard; Trsorydd: Mrs E.M. Williams.

TRIP I'R ALMAEN — Bu nifer o fechgyn Ysgol Brynrefail, Llanrug am drip i'r Almaen gyda'i hathrawon. Pinael y trip oedd mynd i weld Cymru'n chware pêl-droed yn erbyn Gorllewin yr Almaen.

AR EI GWYLIAU — Yn ystod y mis daeth Mr a Mrs Paul Bunker a'u mab Ian gartref o Affrica, Mae Mrs Bunker yn ferch i Mrs Peris Thomas, 25 Dôl Eilian.

'Roedd ei phriod yn athro yn Zambia am 6 mlynedd ac yn Botswana am 6 mlynedd. Estynnwn groeso mawr i'r teulu tra ar eu gwyliau yma.

O'R AMERICA — Am ddiwrnod neu ddau bu Thomas Dewi Davies a'i briod, o Canada, yn aros yng Ngwesty'r Victoria, Mab i'r diweddar Barch W. Eilian Davies, a fu'n weinidog yn Llundain, yna yn Rowe, Efrog Newydd.

Mae Mr Davies yn frawd i John Eilian Davies, oedd yn byw yn 2 Rhes Efrog, ac sydd yn awr yn byw yn Toronto, Canada.

YMADAEL O'R ARDAL — Yn ddiweddar, ymadawodd Dr a Mrs

Ayonb a'i teulu bach, Llanberis am Bakistan, Mae Mrs Ayonb yn ferch i Mrs Lowri Davies, Maes Derlwyn.

Dymunwn bob llwyddiant a hapusrwydd iddynt yn eu cartref newydd.

MARWOLAETHAU

Mrs Olwen Roberts: yn yr ysbyty ym Mangor ar Hydref 6, bu farw Mrs Olwen Roberts, Fron Deg. 'Roedd yn 76 oed ac yn gymeriad hynod o dawel a charedig, ac yn fawr iawn ei pharch gan yr holl ardal. Cydymdeimlwn â'i hunig fab Eurwyn Eilian Roberts. Claddwyd hi ym Mynwent Pentir, gyda'r Parch W.O. Roberts, Llanrug yn gwasanaethu.

Mrs N. Pritchard: Ar y 5 o Hydref bu farw Mrs Nellie Pritchard yn ei chartref, Hafan, Rhes Olgra. 'Roedd yn 80 oed, hithau hefyd yn gymeriad dymunol ac yn aelod ffyddlon o Gapel Coch. Claddwyd hi ym mynwent Nant Peris, gyda'r parchedigion W.O. Roberts, Llanrug, ac R. Roberts, Gwyddelwern yn gwasanaethu. Estynnir cydymdeimlad i'r teulu i gyd yn eu profedigaeth.

Mr T. L. Jones.: Yn frawychus o sydyn, bu farw Thomas Lloyd Jones, 3 Gerafon Bungalows, Fel 'Twm Bach' yr adwaenai pawb ef, 'roedd mor barod ei gymwynas, yn enwedig i'w gymdogion — yn rhedeg yma ac acw yn fân ac yn fuan i gario negas i hwn ac arall. Cymerai ddiddordeb mawr yn ei gyfraniad ar y Sul fel un o gasglyddion Capel Coch. Claddwyd ef ym mynwent Nant Peris. Estynnwn gydymdeimlad i'w fam ac i'r teulu oll.

Mrs Ellen Roberts: Yng nghartref ei merch Eileen, yng Nghorby bu farw Mrs Ellen Roberts, gynt o 6 Stryd Bethesda. Cydymdeimlir ag Eileen a'i theulu, hefyd ei brawd Ernest a'r teulu.

Mrs Pitts: Yn ei chartref yn Rhiwlas bu farw Mrs N. Pitts (gynt o 6 Stryd Turner). Cydymdeimlwn â'r teulu oll.

Mr R. L. Hughes: Daeth gwybodaeth i'r ardal o farwolaeth un o fechgyn y pentref — 'Bob' mab y diweddar Mr a Mrs R. Lloyd Hughes, Stryd Siriol. Gedy weddw a thri o blant, dwy chwaer ac amryw o gefndryd a chyfnitheroedd. Estynnwn gydymdeimlad iddynt oll. Ar y 24 o Dachwedd cynhelir Gwasanaeth Coffa iddo yng Nghapel Preswylfa, a rhoddir ei weddillion i orwedd ym Mynwent Nant Peris.

PENODIAD — Penodwyd Rona Morgan, merch Mrs Mary Morgan a'r diweddar Ronald Morgan, Bod Eilian Newydd, yn athrawes Gwyddor Tŷ yn ysgol Sant Cuthberts, St Helens.

CLWB ERYRI — Cynhaliwyd cyfarfod o'r Clwb yng Ngwesty'r Gwynedd, pryd y mwynhawyd araith ddifyr gan y Parch O.M. Lloyd, Caernarfon. Derbyniwyd chwe aelod newydd: Twrog Jones, Llanrug; Iwan Roberts, Llanrug; Gwilym Owen, Bethel; Wyre Thomas, Waenfawr; Cledwyn P. Jones, Llanberis; J. Norman Davies, Llanberis.

PRIODI — Dydd Sadwrn, Hydref 13, yng nghapel Gorffwysfa priodwyd Elen Lloyd, merch Mr a Mrs Idwal Lloyd Roberts, Merddyn Coch a Dafydd Jones, mab Mr a Mrs J. Jones, Llangaffo, Ynys Môn.

Ar yr un diwrnod yn Eglwys Sant Padarn priodwyd Janet, merch Mr a Mrs Meirion Jones, Dôl Elidir, a David Horman, mab Mr a Mrs Horman Llanrug. Ein dymuniad gorau i'r ddau bâr ifanc.

YN GWELLA — Da iawn yw clywed bod amryw o'r ardalywyr fu'n cwyno ac yn yr ysbyty wedi gwella ac wedi dychwelyd adref: Mr Aled Owen, Stryd Siartot; Mrs Enid Roberts, Maes Padarn; Beverley Pitts, Dôl Elidir; Mrs

Brenda Hughes, Maes Padarn; Alison Roberts, Rock Terrace.

EFEILLIAID — Llongyfarchiadau i Mr a Mrs Thomson, Dôl Elidir ar enedigaeth dwy ferch fach — Susan a Karen.

Hefyd llongyfarchiadau i Kenneth a Catrin Roberts, Walsall ar enedigaeth mab bychan — Rhys Lewis, ar yr 2 o Hydref.

Llongyfarchiadau i Mr a Mrs Tom Roberts, Bryn Hyfryd a Mrs a Mrs J. Jones, Pentre Castell ar fod yn nain a thaid am y tro cyntaf.

CLWB YR HENOED — Ar ddechrau'r mis cynhaliwyd Pwyllgor Blynnyddol Clwb yr Henoed yn festri Nant Padarn gyda'r Canon Alun Jones yn llywyddu. Cafwyd adroddiad ffafrliol iawn gan yr ysgrifenyddes Miss Alan Jones o waith y flwyddyn. 'Roedd aelodaeth y clwb yn 233 a rhoddwyd rhodd ariannol i bob un tua'r Nadolig, cinio yng Ngwesty'r Fictoria i ddathlu dydd Gwyl Dewi, pryd y cludwyd y rhan fwyaf o'r pensiynwyr yn ôl a blaen yn ddi-dâl gan gyfeillion lleol. Diolchwyd yn gynnes iawn i'r cyfryw am roddi eu cerbydau a'u hamser i'r clwb.

Ym mis Gorffennaf trefnwyd y trip. Yn ystod y flwyddyn ymwelir â'r aelodau hyn fu'n wael ac yn yr ysbyty. Diddanwyd yr aelodau gan aelodau Parti Glynrhonwy, a mawr oedd diolch y pwyllgor i'r Cyngorydd Trefor Williams am drefnu'r cyfan.

Cyflwynwyd y fantolen gan y Trysorydd, Mrs Gwyneth Clarke, ac er bod prisiau popeth wedi codi dangoswyd sefyllfa ariannol iachus iawn.

Diolchodd Canon Alun Jones i'r ysgrifennydd a'r trysorydd am eu gweithgarwch ac hefyd i aelodau'r pwyllgor oedd yn parhau i weithio mor dawel a diymffrost er budd a lles yr henoed yn yr ardal. Diolchodd hefyd i'r siopau a'r mannau busnes yn yr ardal am eu cefnogaeth i'r Ffair Nadolig a gynhelir bob blwyddyn ym mis Tachwedd er codi arian i'r clwb.

TEYRNGED — Teyrnged Goffa i un o hogia'r ardal John O. Jones, (East Lynne, Llanberis) gan ei gyfaill J.H. Roberts (Monallt), Penrhyndeudraeth — cynganeddwr cyfarwydd.

Medd Mr D.O. Griffiths, blaenor ym Methel, Birmingham wrth amgáu englynion coffa J.H. Roberts (Monallt) i'w gyfaill J.O. Jones, Corby: "Cofiw'n amdano fel cerddor a chyfansoddwr o'r radd flaenaf. Ymddangosodd rhai o'i donau yn y Detholiad, a bu'n rhyfeddol o ffyddlon i'r Achos Cymraeg ac i'r Gymanfa Ganu yn Corby". Dyma felly deyrnged haeddiannol gan gyfaill, a chan gynganeddwr cyfarwydd.

Gŵr da, cerddgar a diwyd: Mae newyn Am gwmniwr hyfryd:
Dewr fu ym mrwydr ei fywyd,
Heb ei wên, tywyll yw'n byd.

Gwylaidd a thwym ei galon — boneddwr

Bu'n nawdd i gerddorion:
Ac wrth greu ei ganeuon
Rhôl iaith Duw'n ei brydferth dôn.

Fe welai wrth gyfeillio — yn y Deml,
Wynneb Duw'n disgleirio:
Rhyfedd ddawn ei fysedd o,
Addolai gyda'i ddwylo.

Ei wên yn yr Wyl Ganu — fywhai'r dorf
A'r dôn yn eu clymu:
Â'i law fe arweiniodd lu
Yn rasol at yr Iesu.

Dan faich ei dynn afiechyd, — ei alaw
A siriolai'i fywyd:
Ei ddyfal weddi hefyd,
Drwy hon câl hyder o hyd.

Garw ei roi'n y gweryd, — ein hiraeth
Â yn arwach hefyd:
Ond ein dilyn o'r Gwynfyd
A wna'i lais annwyl o hyd.

CYMDEITHAS LENYDDOL — Cynhaliwyd y cyfarfod agoriadol o Gymdeithas Lenyddol Capel Coch, Gorffwysfa a Phreswylfa, nos Lun, Hydref 22, a chafwyd noson hwyliog iawn yng nghwmi'r Parchedig Huw John Hughes, B.Ed., yn sôn am 'Hiwmor y Chwarelwr'. Dyma y swyddogion am y tymor — Llywydd: Y parchedig Marcus Wyn Robinson, BD; Is-lywydd: Mr Gwynfor Williams; Trysorydd: Mr Cledwyn Parry; Ysgrifennydd: Mrs Eluned Mai Jones. Y mae croeso cynnes i bawb ymuno â'r Gymdeithas.

DERBYN TRINIAETH — Yn ysbyty'r plant, Alder Hey, Lerpwl mae Dewi, mab bychan Mr a Mrs Bryn Jones, Balacava House, yn derbyn triniaeth lawfeddygol Dymunir iddo adferiad llwyr yn fuan iawn, ac y cawn ei weled o gwmpas y pentre cyn bo hir.

CYDYMDEIMLWN — Â Mrs Thorne, Maes Padarn ar farwolaeth ei mab, Billy a oedd yn 48 oed, ac a fu farw yn yr ysbyty yn Sale, Manceinion. 'Roedd yn dad i bedwar o blant ifanc.

CROESO GARTRE — Mae trigolion yr ardal yn estyn croeso cynnes iawn i Dilys, merch Mrs Susie Roberts, Dôl Eilian a'i theulu bach ar ôl iddynt fedru dianc o Uganda, lle y bu'n byw gyda'i phriod Dr Kisalu am bymtheng mlynedd. Mae'r fam a'r plant yn aros dros dro mewn hostel i rai digartref yn Neiniolen a mynychu'r plant ysgol Brynrefail Llanrug. Gobeithia Mrs Kisalu gael tŷ iddi ei hun ymhen ychydig, ac wedyn bydd yn rhaid cychwyn o'r dechrau unwaith eto oherwydd nad oes ganddynt ddodrefn o gwbl — Diolch fod y teulu bach yma yn saff yng nghadernid yr hen fynyddoedd yma. Cânt fyw mewn heddych a distawrwydd a chyfeillion yn eu hamgylchu a'u caru.

LLONGYFARCHIADAU — I Mrs Lowri Davies, Maes Derlwyn ar fod yn hen nain am y tro cyntaf.

Gwesty Dolbadarn

Tŷ

Rhydd-

Feddiant

Llanberis

FFÔN : LLANBERIS 277

Perchennog

Aneuryn

Jones

MAN DELFRYDOL I BARTI PRIODAS

NEU GINIO BLYNYDDOL

Hefyd

CANOLFAN DRECIO

Holwch am ein

telerau rhesymol



Eisteddfod arall i fro'r Eco

Penisarwaun yn Mynd Ati

Nos Lun, Hydref 8, cynhaliwyd cyfarfod cyhoeddus yn yr Ysgol Gynradd, Penisarwaun i drafod y cwestiwn o ail-sefydlu Eisteddfod yn y pentref. Daeth nifer hynod o galonogol ynghyd a phenderfynwyd yn unfrydol bod angen Eisteddfod ym Mhenisarwaun. Aethpwyd ati i ddewis pwyllgor gyda'r swyddogion fel a ganlyn — Llywydd: Leslie Jones Ysw.; Is-lywydd: Miss Phyllis Ellis; Ysgrifennydd: Tegid Roberts Ysw.; Is-ysgrifennydd: Tony Elliott Ysw.; Trysorydd: Bryngwyn Griffith Ysw.; Is-drysorydd: Mrs Elizabeth Jones.

Aelodau'r Pwyllgor: Mrs Ann Evans, Mrs Eirlys Williams, Mrs Pat Jones, Mrs Avril Williams, Mrs Jean Roberts, Mrs Glenys Williams, Mrs Ann Lewis Jones, Mrs Margaret Williams, Mr Glyn Evans, Mrs Eluned Jones, Mr Ieuan Williams a Mr Len Jones.

Penderfynwyd cynnal yr Eisteddfod yng Nghapel Glasgoed gan adfer traddodiad a fu o gynnal Eisteddfod yn y Capel.

Cytunwyd yn unfrydol mai peth doeth fyddai cyfyngu'r Eisteddfod gyntaf i un noson fel arbrawf. Gobeithir cynnal yr Eisteddfod ym mis Ebrill, 1980, efallai ar nos Wener, Ebrill 25 os na fydd Eisteddfod arall yn y cyffiniau y noson honno. Bydd yr Eisteddfod yn agored i blant a phobl ifanc i fyny at 18 oed sy'n byw yn yr ardal o amgylch Penisarwaun y tu mewn i ddalgylch yr ysgol gynradd leol.

Mae Pwyllgor yr Eisteddfod yn dymuno datgan eu diolch i'w cydbentrefwyr a ddaeth i'r cyfarfod cyhoeddus am eu cefnogaeth a'u brwdfrydedd. Gadewch i'ni adrych ymlaen yn awr at 'Steddfod lewyrchus a fydd yn gyfrwng i ninnau fel pentrefwyr i ddod at ein gilydd i warchod y 'pethe'.

NANT PERIS

CLWB IEUENCTID — Rhoddwyd croeso cynnes i Mr Geraint Roberts, pennaeth Canolfan Llanallgo, Moelfre nos Lun Hydref 22 pan ddaeth i ddangos sleidiau o weithgareddau awyr agored i'r clwb. Dangosodd y clwb ddiddordeb mawr yn y gwaith a wnâi Mr Roberts efo pobl ifanc yng nghyswllt defnyddio'r amgylchfyd.

Gobeithir trefnu sesiwn fore Sadwrn rhywdro yn y dyfodol i'r clwb gael cyfle i flasio profiad mewn canwio a dringo.

FFARWELIO — Chwith gennym fel ardal am ymadawiad Mr a Mrs W. Aaron o Gwm Eilir Isaf. Buont yn barod iawn eu cymwynas at bob achos tra yn ein plith. Gobeithiwn na fyddwch yn ddieithr Carys a Wil a'n dymuniadau gorau i chwi yn eich cartref newydd, yn y dyfodol.

Deallir hefyd bod Mr a Mrs Hugh Alun Jones wedi mynd adref i Awstralia. Nid hwn yw'r tro cyntaf iddynt ddod yn ôl i'r ardal am wyliau a gobeithiwn y cawn eu croesawu eto.

CROESO ADREF — I Mr Rutherford Y Llythyr, o'r ysbyty. Hyderwn ei fod yn gwella'n ddyddiol.

MARWOLAETH — Trist oedd clywed am farwolaeth sydyn Tom Ll. Jones, Llanberis. Un o hogia'r Nant ydoedd cyn i'w fam ac yntau symud i fyw i Lanberis. 'Roedd yn gymeriad hoffus ac ni fu cerddwr tebyg iddo — 'roedd ganddo ddywediadau ffraeth. "Gerddwr mawr, gorweddwr mwy."

CYDYMDEIMLWN — Â Mrs Jennie Wyn Jones, Dwyfor a Mr David Emrys Griffith, 5 Bro Glyder yn eu profedigaeth yn ddiweddar.

CEFNOGWCH
EIN
HYSBYSEBWYR

DINORWIG

DAMWAIN — Cyfarfu Miss Florrie Davies, Felin Bach â damwain trwy dorri ei braich. Aethpwyd â hi i Ysbyty Môn ac Arfon am driniaeth. Gwellhad buan iddi.

O'R YSBYTY — Croesawir gartref o Ysbyty Môn ac Arfon wedi triniaeth law-feddygol Mrs Gwilym Davies, 10 Bro Elidir. Brysied wella.

I'R YSBYTY — Drwg deall bod Mr Eurwyn Fleming, 1 Maes Eilian, wedi gorfod mynd i Ysbyty Sant Thomas, Llundain, am driniaeth feddygol. Gwellhad buan iddo.

Aethpwyd â Miss Annie Jones, 6 Bro Elidir i Ysbyty Dewi Sant, Bangor. Dymunir gwellhad buan iddi.

LLONGYFARCHIADAU — I Mr a Mrs David J. Thomas, Tŷ Capel Sardis, ar enedigaeith eu wŷr cyntaf Andrew Richard, mab bychan Mr a Mrs R. Lloyd Thomas, Northampton.

PRIODAS — Dymunir yn dda i Mr a Mrs Emrys Roberts, Ysgubor ar eu priodas yn ddiweddar.

CYMDEITHAS FEIBLAU — Cangen Deiniolen a'r Cylch. Cynhaliwyd gwasanaeth blynyddol y Gymdeithas eleni yng nghapel Dinorwig MC. Daeth cynulleidfda dda ynghyd a chafwyd eitemau gan blant Ysgolion Sul y cylch. Llywyddwyd gan y Parch Trefor Lewis, Disgwylfa, a diolchwyd gan Mr Emyr Pritchard, Disgwylfa. Gwnaed y trefniadau gan yr Ysgrifennydd, Mr R. Williams, Libanus.

DIOLCH — Dymuna Mr Gwilym Davies a theulu y diweddar. H.R. Davies, Pen-y-bont, Deiniolen, ddiolch i'w teulu, cyfeillion a chymdogion am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt ar ôl colli un mor annwyl. Diolch am y blodau a'r llw cardiau a dderbyniwyd.

Hefyd, dymuna Mr Gwilym Davies 10 Bro Elidir, ddiolch o galon i bawb am eu dymuniadau da, eu rhoddion, a'r cardiau a dderbyniodd tra yn yr Ysbyty ym Mangor a Chaernarfon.

Diolch hefyd i bawb yn Ysbyty Môn ac Arfon ac yn Eryri, Caernarfon, am eu gofal tyner.

GWESTAI HOGIA'R WYDDFA



Yr enwog gôr Telyn Tello gyda'i harweinydd Noel John fydd gwestai'r Hogia yng Nghaernarfon, nos Sadwrn, 3 Tachwedd.

(parhad o'r dudalen flaen)

arfer gyda'r ofn. Gwyddai pawb bod Amin yn casau'r Prydeinwyr a phwysleisiai Mrs Kisalu mai Cymraes oedd hi bob tro y cawsai'r pwnc ei godi. 'Roedd hyn yn amlwg yn gwneud y tro gan mai Lloegr oedd gelyn Amin. Onid oedd wedi gwisgo un catrawd o'i filwyr mewn ciltiau Albanaidd ac wedi cael rhywun i chwarae'r bagbibau?

Problem fawr arall yn Uganda oedd chwyddiant ar raddfa anhygoel o uchel. 'Roedd kilo o siwgrwr er enghraifft yn £4.00, pwys o fargarin yn £5.00 a thorth bach ymhell dros bunt. 'Roedd prinder petrol yn ychwanegu at y problemau ac yn rheswm dros godi prisiau nwyddau yn uwch. 'Roedd hyn yn annog smyglo a phob math o dor-cyfraith.

Onid nid oedd helbulon cyfnod Amin yn ddim i'w cynharu ag uffern yr wythnosau a ddilynodd ei ymadawiad pan oedd milwyr Tansania yn y wlad. Soniodd am yr ofn eithafol oedd arni hi a'r teulu. Saethwyd cymydog iddi a saethwyd ffrind ei gwr a gwyddai am rai eraill a lofruddwyd. Dywedodd y byddai'r milwyr yn cerdded i'r tai ac yn lladd, weithiau, deuluoedd cyfan, ac weithiau rai aelodau o deulu a hynny heb fath o reswm.

Clywodd ergydion gynnu yn y nos a chlywodd rocedi yn glanio mewn gwahanol rannau o Kampala. Dywedodd fel y byddai ei gwr a hithau yn anfon y plant i'w gwelyau'n gynnar ac yn eistedd yn dawel yn nhywyllwch eu hystafell gydag arfau wrth eu hochrau. 'Roedd ganddynt ddyn gyda bwa saeth yn gwylio yn yr ardd. Nid oedd yn bosib iddynt roi eu meddyliau ar gwsg ac wrth gwrs, 'roedd y plant hefyd yn teimlo'r tyndra. Digwyddai hyn noson ar ol noson.


Ei phoen mwyaf oedd diogelwch ei phlant. 'Roeddynt yn teithio ar draws y ddinas i fynd i'r ysgol erbyn 8 o'r gloch y bore. Ni welai hwy wedyn tan tua 6 o'r gloch y nos pan gyrchai eu tad hwy adref.

Mae'n debyg mai dyfodol y plant oedd uchaf ym meddyliau Dr Kisalu a hithau pan benderfynasant ddod o Uganda i Gymru — taith a gymerodd dri mis o amser — rhwng y trefnu a phopeth. Eu gobaith rwan yw cael ty ac yna setlo yn yr ardal yma. Mae ei genethod hynaf a'i nith newydd ddechrau yn Ysgol Brynrefail. Mae mam Mrs Kisalu sef Mrs S. Roberts, Dol Eilian, Llanberis sydd wedi colli llawer o gwsg yn ddiweddar drwy boeni am ei merch yn hynod o falch o'i gweld hi a'i theulu'n ddiogel unwaith eto.

**GORS BACH
PANEL
BEATING
SERVICE
Cwm-y-glo**

Ffôn : LLANBERIS 814

**GWASANAETH TORRI-LAWR
24 AWR**



PENISARWAUN

YR YSGOL — Cynhaliwyd gwasanaeth Diolchgarwch yn yr ysgol bawn Gwener cyn torri am y gwyliau. Diolchir i'r rhieni am y cyfanswm o £27.40 a gyfrannwyd, ac a drosglwyddwyd i Gronfa Achub y Plant.

Aeth deg o blant i fwrw'r Sul i Lanlllyn, lle cafwyd cwmni plant o nifer o ysgolion ym Môn ac Arfon.

Cynhelir Noson Goffi'r ysgol eleni, nos Wener, Tachwedd 23. Gwerthfawrogwn pob cefnogaeth.

CLWB YR HENOED — Mewn cyfarfod yr wythnos diwethaf dan lywyddiaeth Mrs Porter croesawyd Mr Leslie Jones a chawsom bleser o glywed ei hoff recordiau. Llonyfarchwyd Miss Bronwen Rees Hughes ar ei dyweddïad â Kevin Jones a hefyd Mrs A. Williams, Meillionydd ar fod yn Hen Nain. Da gweld Emlyn Wyn, Bryn Tirion wedi dod adref o'r ysbyty ac yn gwella. Bydd y cyfarfod nesaf, Hydref 20, pryd y gwneir trefniadau ar gyfer y parti Nadolig.

EGLWYS SANTES HELEN — Cafwyd cyfarfod o Undeb y Mamau nos Lun, y 1 o Fedi. Y gŵr gwadd oedd y Parchedig T. Jones, ficer Caernarfon, ac fe roddodd sgwrs ar hanes Eglwys Llanbeblig. Diolchodd Mrs A. Pritchard Pen Sarn iddo.

Cydymdeimlwyd â Mrs Jones, 5 Llys y Gwynt a'r teulu yn eu profedigaeth. Llonyfarchwyd David Williams ar ennill dwy fedal aur mewn gemau gyda'i goits olwyn. Rhoddwyd y te gan Mrs Sarah Roberts, Elidir View, Llanrug.

Cafwyd cyfarfodydd Diolchgarwch llewyrchus iawn. Cymerodd y plant ran yn y gwasanaeth yn y bore. Diolch i bawb am eu rhoddion ac anfonwyd y ffrwythau a'r llysiau i gartref Fron Deg Caernarfon.

Fe fedyddiwyd Williams Lewis, mab bach Mr a Mrs Haydn Lewis, Pen Pwll Coch, gan y Parch Gwynfor Williams, Rheithor Llanrug yng ngwasanaeth y Gosber nos Sul y 23 o Fedi.

Gobeithiwn bod William yn gwella ar ôl ei driniaeth yn yr ysbyty yn Lerpwl.

I'R YSBYTY — Mae Mr William Jones yn mynd i'r ysbyty am driniaeth lawfeddygol. Yr ydym yn dymuno adferiad buan iddo.

DOSBARTH CYMRAEG — Oherwydd y cwtogi ar ddefnyddio'r ysgolion gyda'r nos bydd y dosbarthiadau yn cael eu cynnal yng nghartrefi'r dysgwyr. Cynhelir y dosbarthiadau ar nos Lun ac mae croeso i aelodau newydd ymuno â'r grŵp.

GENI — Yr oedd pawb yn falch o glywed am y baban newydd i Maldwyn a Christine. Llonyfarchiadau i'r teulu bach.

YMWELD Â'R ALMAEN — Y bu Côr Meibion Caernarfon. Yn eu plith yr oedd Mr Len Porter. Cawsant amser difyr iawn ac yn ôl yr hyn yr ydym yn ei glywed cred yr Almaenwyr bod y Cymry yn dipyn gwell am ganu nag am chwarae pêl-droed.

YMDDEOL — Dymuniadau gorau i Mr James Munro ar ei ymddeoliad o'i waith yn Ferodo. Bu'n gweithio yn y chwarel cyn iddi gau, gyda Chyngor Gwyrfa'i a chwmni Ferodo yn ogystal, a bu yn y fyddin yn ystod yr ail ryfel byd.

CLWB IEUENCTID — Mae'r clwb i bobol ifainc y pentref wedi ail ddechrau dan ofalaeth Mr Len Jones bob nos iau.

BWS I GAER — Y mae Mrs Margaret Williams, Carrog, Waun yn trefnu bws i Gaer ar Ragfyr 1. Y pris yw £1.35 i oedolion a 95c i blant. Os ydych am fynd ffoiniwch Llanberis 716 i drefnu.

SEFYDLIAD Y MERCHED — Cynhaliwyd cyfarfod yn Neuadd yr Eglwys nos Fawrth y 23 o Hydref. Rhoddodd Mrs R.T. Cemlyn Williams Caernarfon sgwrs ddifyr ar sut i drefnu a gosod blodau.

Rhoddwyd y te gan Mrs Percy Williams a Mrs Gwen Lewis.

Yn ystod y cyfarfod cydymdeimlwyd gyda Mrs Katie Williams, Mrs Percy Williams, a Mrs Eleanor Jones yn eu profedigaethau.

Llonyfarchwyd Mrs A. Williams, Meillionydd am fod yn hen nain, Mrs Bessie Williams ar fod yn nain, a Mrs Nansi Jones, Meillionydd ar fod yn hen fodryb.

Bydd y cyfarfod nesaf yn gyfarfod blynyddol yn neuadd yr Eglwys ar y 27 o Dachwedd am 7.00 o'r gloch.

CROESO'N ÔL — Mae Mr a Mrs Douglas Jones wedi dychwelyd ar ôl 3 wythnos o wyliau yng Nghanaada gyda chwaer Mrs Jones. Croeso'n ôl i chi.

GWYLIAU — Sôn am wyliau, byddwn yn colli Glenys a Ken am ychydig gan eu bod yn mynd i Tenerife ar eu gwyliau.

CROESO ADREF — Da iawn oedd gennym weld Mrs Abbot, Bryn Tirion, wedi dychwelyd o'r Ysbyty. Gobeithio iddi gael adferiad llwyr a buan.



ESBONIAD — Wel — dyma nhwl — y rhai od a welsoch ar dudalen 3. Beth am esboniad? 'Dydy Carole a Len Porter a Dewi Jones ddim yn cerdded o gwmpas wedi'u gwisgo fel hyn fel arfer. 'Roeddynt yn gwisgo gwisgoedd o gyfnod Lloyd George ar gyfer cyfres deledu BBC yn portreadu bywyd y gwleidydd o Gymro. 'Roedd y BBC yn brysur yn fflmio rhai golygfeydd yng Nghaernarfon yn ystod wythnos yr Eisteddfod ac 'roedd angen nifer o "actorion" ychwanegol i fod yn y cefndir mewn golygfeydd yn y castell, Neuadd y Dref, a llefydd eraill. Chwaraeir rhan Lloyd George gan y Cymro gwlatgar hwnnw, Phillip Madoc.

PARTI'R HEULWEN



CWM-Y-GLO

MERCHED Y WAWR — Mrs Dorothy Jones, Fron Gader, oedd y wraig wadd yng nghyfarfod Hydref o Ferched y Wawr. Mrs Margaret Williams, Nant Forgan, oedd y cadeirydd am y mis.

Yr oedd testun sgwrs Mrs Jones yn addas iawn ar gyfer Blwyddyn y Plentyn. Siaradodd am ei gwaith fel cynrychiolydd y mudiad a elwir 'Yr Ymgrych dros y Plentyn Methedig'.

Pwrpas y mudiad hwn yw casglu arian i hybu ymchwil meddygol i bob agwedd o anafiadau corfforol, beth bynnag fo'r achos. Dangosodd sleidiau o'r dyfeisiadau modern a wnaed i gynorthwyo y methedig.

Diolchwyd iddi gan Mrs Gwyneth Chick, am agor ein llygaid i'r gwaith dyngarol hwn, sydd yn myned ymlaen yn y wlad. Miss Elizabeth Hughes, Tan-y-graig a Miss Mat Pritchard, Rhosbodrual roddodd y te.

Diolchwyd hefyd i Mrs Iris Rowlands, Glan'rafon a Miss Mair Rowlands, Bodafonjam, eu gwaith o ymgymeryd â threfnu Swper Nadolig i'r gangen ym Mhlas Maenan.

MARW — Ar ôl gwaelled hir, ond yn sydyn ar Fedi 19 yn ysbyty Bryn Selont, bu farw Owen Williams, (Now Bach), 5 Dolafon yn 71 mlwydd oed. Y Rheithor, Parch D.G. Williams, Llanrug a oedd yn gwasanaethu yn y tŷ ac hefyd ym mynwent Llanrug.

Dymuna Mrs K. Williams a'r plant ddiolch i bawb am bob caredigrwydd a ddangoswyd tuag atynt, ym mhob ffordd, yn ystod eu profedigaeth o golli priod, tad a thaid annwyl.

Diolch yn arbennig i'r Rheithor Parch D.G. Williams am ei wasanaeth. Derbyniad y teulu ein cydymdeimlad llwyr.

CYDYMDEIMLAD — Drwg gennym fel pentrefwyr, oedd clywed am farw Mr Eric Mullins, yn Sheffield. Efallai bod pawb yn ei adnabod yn well fel gwr Mrs K. Maude Mullins (Evans gynt), Terrace. Dioddefodd gystudd hir a blin yn dawel iawn.

Derbyniad Mrs Mullins, John a Janice ein cydymdeimlad llwyr.

DIOLCHGARWCH — Tabernacl: cafwyd diwrnod Diolchgarwch llewyrchus iawn yn y Tabernacl dydd Llun 15. Yn y bore cynhaliwyd cyfarfod gweddï, a chymerwyd rhan gan Mrs Beryl Parry, BA, Hebron; Mr Llew Hughes, Hyfrydle, a Mr Len Parry, BA, Hebron.

Y Parch Dewi Morris, Porthmadog oedd y pregethwr gwadd, a mwynhawyd dwy bregeth dymhorol iawn ganddo. Fe hoffai'r diaconiaid ddiolch i bawb am eu cyfraniadau hael y flwyddyn hon eto.

YMARFER PÊL-DROED — Yn ystod y ddau fis diwethaf, bu aelodau y timau iau yn mynychu neuadd Arfon,

Bangor, ar nos Wener i ymarfer. Mae y bechgyn yn mwynhau eu hunain wrth ymarfer, ac yn ddiolchgar i'r ardalwyr sydd yn eu cludo yn gyson.

AR EU GWYLIAU — Yn y Cwm o Dde Affrica yn ddiweddar bu Meic Owen a'i wraig Rhoda (Meic Llwyn Coed i'w gyfoedion) yn aros yn y Llwyn Coed gyda'i nai.

Aeth Meic i Dde Affrica yn 1923 gyda'i Dad a'i Fam, ei frawd Fred a'i chwaer Jessie sydd yn dal i fyw yno o hyd.

Da oedd ei weld yn edrych mor dda a heini o hyd a'i Gymraeg mor rhugl ar ôl bod o'r wlad am 56 mlynedd. Bu yn gweithio yn y gwaith aur yn Pilgrims Rest am yn agos i 50 mlynedd.

Gobeithio y cawn weld y ddau eto yn y Cwm yn o fuan eto.

YR YSGOL GYNRADD — Mewn cyfarfod o'r rheolwyr yn ysgol Cwm-y-glo ar Hydref 2, fe gyfeiriwyd gan y Cynghorydd Francis Jones at y gwaith rhagorol a wnaed gan y plant yn y pasiant 'Beibl y Plant' yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Diolchwyd hefyd i'r athrawon a fu'n hyfforddi'r plant.

Pan oedd y crysau'n olau
Ac ar y lein yn wyn
A hwythau newydd ddod o'r dŵr
Bu mwstwr ym Mhenllyn
Daeth mwg a huddug trwy y fro
O simdde Llwyncoed, Cwm-y-glo.

Ac fel y tywyllai'r crysau
Âi'r rhegi'n llawer gwaeth
Nid ydoedd gosteg ar y stŵr
"Mi laddwn y dyn iath"
Ac 'roedd y dagrau, ar fy llw
Yn llifo'n lleddf — Bw hw — bw hwl
Y Frân Ddu
(via R.W.P.)

CYRN YR EBOL

Annwyl Olygydd,
Diolch i'r tri a roddodd eglurhad i'm cwestiwn yn rhifyn olaf Eco'r Wyddfa "Beth sy'n gyfrifol am y cyrn a welir ar yr ochr fewnol o goesau blaen ac ôl ceffyl?"

Er bod esboniad y Ffariar, Huw Geraint Williams yn ddiddorol ar ffurf penillion gan Mrs Miriam Hughes tueddaf i gytuno ag R.O. Pritchard. Yn siŵr rhoddodd y tri well eglurhad imi na'r BBC!

Yn gywir,
Harry Jones,
Tŷ Uchaf,
Ceunant.

MODURDY MENAI



FFORDD CAERNARFON
Y FELINHELI

Ffôn : Portdinorwic 670882
Perchennog : J. Evans

LLANRUG

PLAID CYMRU — Trefnir Bore Coffi o 10-12 o'r gloch gan ferched Caernarfon a'r Cylch o Blaid Cymru yng Nghanolfan Penrallt ar Tachwedd 17. Bydd stondinau a raffi. Aeth amryw o aelodau Cangen Llanrug o Blaid Cymru i Rali'r Blaid yn Llandudno i anrhydeddu y Parch Lewis Valentine, yr ymgeisydd cyntaf yn Arfon. Yr oedd rhai o'r aelodau ymysg y 609 cyntaf i bleidleisio i'r Blaid yn Arfon. Y siaradwr gwadd oedd yr Aelod Seneddol Dafydd Wigley gyda Mr O.M. Roberts, un o fechgyn Llanrug yn gadeirydd. Bu cynrychiolwyr o'r gangen yn y Gynhadledd hefyd, ond yr oedd yn chwith gennym nad oedd Mr Emlyn Jones, y trysorydd yn bresennol fel arfer gan ei fod yn wael. Dymunwn adferiad buan iddo.

Bydd cyfarfod blynyddol y gangen nos Wener, Tachwedd 16 yn y Sefydliad Coffa, pan ddisgwylir yr Aelod Seneddol Dafydd Wigley yno i siarad.

Y SEINDORF — Cynhaliwyd Ffair Sborion yn 'Feed My Lambs', Caernarfon ar Hydref 13. Gwnaed elw sylweddol i'r gronfa. Carem ddiolch i bawb am eu rhoddion.

Dymuniadau gorau i'r seindorf a fydd yn cystadlu mewn cystadleuaeth derfynol yn Pontins ar Dachwedd 3, yn erbyn bandiau o bob rhan o'r wlad.

Ar Tachwedd 9, cynhelir cyngerdd o dan nawdd y seindorf yn Ysgol Brynrefail gyda Einir Wyn, a Chôr Caernarfon. (Bws yn cychwyn o Dan-y-coed am 6.45, yn galw yn Dolafon, Cwm-y-glo, Brynrefail a Phenisarwaun.

TRIP Y PANTOMEIM — Pantomeim Cwmni Theatr Cymru eleni fydd 'Mwstwr Clwstwr' sydd wedi ei selio ar ddrama fuddugol Ann Llwyd Elis Jones yn Eisteddfod Genedlaethol Caernarfon. Bydd perfformiad dydd Gwener, Ionawr 4, 1980 am 2 o'r gloch. Trefnir bws i'n cludo fel arfer. Enwau erbyn Tachwedd 10 os gwelwch yn dda i Siân Williams, Cartref (Ffôn: Caernarfon 3577) neu Linda Jones, Pent Mwyn (C'fon 3838).

ANRHYDEDD — Diwedd mis Medi cynhaliwyd y gynhadledd Ewropeaidd gyntaf mewn milfeddygaeth yn yr Iseldiroedd. Cafwyd darlithoedd gan arbenigwyr o Brydain, Yr Almaen, Gwlad Belg, Denmarc, Ffrainc, Yr Eidal, Yr Iseldiroedd, Iwerddon ac Awstralia.

Un o'r rhai a gynrychiolau Prydain oedd y Dr David J. Humphreys. 'Roedd yn darlithio ar ddatblygiadau cyfoes mewn tocscioleg mewn anifeiliaid. Mab yw Dr David J. Humphreys i Mr a Mrs J. Humphreys, Caer Maen.

Llongyfarchiadau iddo ar yr anrhydedd o gael ei ddewis i ddarlithio i gwmni mor ddethol.

MERCHED Y WAWR — Cynhaliwyd cyfarfod o'r gangen ar Hydref 9 yn yr Ysgol Gynradd, gyda'r llywydd Mrs N. Lovatt yn y gadair. Y siaradwr gwadd oedd Mr Gwynfor Williams, Llanberis a'i destun oedd 'Mynydd'. Diolchwyd iddo gan Mrs Nansi Roberts. Penderfynwyd rhoddi £5 at yr henoed a £5 at y Spastics. Mrs N. Lovatt a Mrs G.M. Jones fydd yn cynrychioli'r gangen yn Aberystwyth. Diolchwyd i'r gwestwragedd gan Mrs Ann Lloyd Griffith.

Bydd y cyfarfod nesaf ar yr ail nos Fawrth ym mis Tachwedd.

Y GYMDEITHAS LENYDDOL, CAPEL MAWR — Nos Fercher, Hydref 17, cafwyd pwyllgor, pryd y trefnwyd rhaglen ar gyfer y gaeaf. Y swyddogion yw: Llywydd: Y Parch W.O. Roberts; Is-lywydd: Mr Gwilym Owen, Glasgoed; Ysgrifennydd: Mrs Mair

Jones, Ogwen; Trysorydd: Mr John Williams, Gwledfa.

DIOLCHGARWCH — Cynhaliwyd yr Ŵyl, fel arfer yn y Capel Mawr ddydd Llun, Hydref 15 gyda thri chyfarfod. Yng nghyfarfod y bore cymerwyd rhan gan holl blant yr eglwys mewn defosiwn a thraddodwyd anerchiad iddynt gan y gweinidog, y Parch W.O. Roberts. Arweinwyd cyfarfod y pnawn gan chwirydd yr eglwys, ac yr oedd cyfarfod yr hwyr dan ofal y blaenoriaid. Cafwyd cynnulliaid da a chyfarfodydd bendithiol drwy'r dydd.

Y GYMDEITHAS UNDEBOL — Nos Fawrth, Hydref 23, cynhaliwyd cyfarfod agoriadol y Gymdeithas. Croesawyd Parti Clychau'r Grug, o gangen Merched y Wawr, dan arweiniad Mrs N. Lovatt gan Lywydd y Gymdeithas, Mrs M. Lloyd Williams. Yr oedd y cyfarfod o safon uchel, ac mae'r parti a'u harweinydd i'w canmol yn fawr. Talwyd diolchiadau iddynt gan y Parch W.O. Roberts a'r Parch Alun Francis, a chafwyd gair ymhellach gan Mrs Butler a Mrs Williams, Bod Fair. Mae rhaglen y tymor wedi ei threfnu gan y pwyllgor, gyda rhagolygon am gyfarfodydd da. Bydd y cyfarfod nesaf, Tachwedd 6, pryd y disgwylir y Parch H.J. Hughes, Porthaethwy i roi sgwrs a sleidiau ar Fyd|Natur.

GWELLHAD BUAN — Da gweld Mr Emlyn Jones, Parc Isaf, adref ar ôl cyfnod yn yr ysbyty yn Lerpwl. Mae yn un o ddosbarthwyr Eco'r Wyddfa. Ein dymuniadau am wellhad buan iddo. Hefyd Mrs Williams, Gwyddfor, Pontrhythallt sydd yn Ysbyty Gobowen wedi cael triniaeth lawfeddygol, Mrs Eirianwen Thomas, Bron-y-nant yn Ysbyty Dewi Sant, Bangor, Miss Linda Williams, 2, Rhos Rhug mewn ysbyty yn Lerpwl a Mrs L. Pritchard, Gwynfa yn Ysbyty Eryri. Anfonwn ein cofion a'n dymuniadau am adferiad llwyr a buan iddynt i gyd.

GENI — Llongyfarchiadau i Mr a Mrs Tecwyn Roberts, 15 Afon Rhos ar enedigaeth mab, Gareth.

GWEINYDDDES — Dymunwn yn dda i Miss Olwen Hughes Jones, Bryn Afon ar gychwyn ei gyrfa fel gweinyddes yn ysbytai Lerpwl. Bydd yn dechrau ar ei gwaith yn Ysbyty Walton.

GWASANAETH DIOLCHGARWCH — Cynhaliwyd gwasanaeth diolchgarwch gan blant yr Ysgol Sul yng Nghapel Pontrhythallt, nos Sul, Hydref 21. Hyfforddwyd y plant gan yr athrawon a chafwyd gair gan y gweinidog, y Parch W.O. Roberts. Y cyfeilydd oedd Mrs Mair Huws.

CYMDEITHAS CHWIORYDD CAPEL MAWR — Cafwyd noson goffi gyntaf y tymor, nos Iau, Hydref 4 a dechreuwyd trwy ddefosiwn gan Mrs N. Roberts, Anedd Wen. Trefnwyd ar gyfer gwasanaeth diolchgarwch, ac hefyd i lanhau'r Capel a gosod y carped newydd. Diolchwyd i amryw o chwirydd a anfonodd arian tuag at y gwaith er yn methu bod yn bresennol — ac anfonwyd cofion atynt. Rhoddwyd y coffi gan Mrs Beryl Thomas, Gerallt a Mrs W.O. Roberts, Anedd Wen. Gwnaed trefniadau at y Ffair Nadolig a gynhelir fel arfer Rhagfyr 7.

LLONGYFARCHIADAU — I Mr D. Glyn Owen, Llys Eryri ar ei ethol yn Llywydd Henaduriaeth Arfon yn Eglwys Bresbyteraidd Cymru am 1980. Y mae Mr Owen yn llwyr deilgyngu'r anrhydedd arbennig hon ar sail ei wasanaeth ffyddlon i Eglwys Pontrhythallt fel Blaenor am lawer o flynyddoedd. Cyfrannodd yn helaeth hefyd i fywyd crefyddol yr ardal.

Y mae ei ddau fab yn uchel eu parch yng Ngweinidogaeth Eglwys Bresbyteraidd Cymru, y naill yn weinidog ar Eglwys Gymraeg Birmingham a'r llall yn Ysgrifennydd Bwrdd y Cenhedlaethau yng Nghaerdydd.

LLONGYFARCHIADAU — I Marina Katherine Roberts, 3 Teras Hermon, Llanrug, ar ei llwyddiant yn arholiadau Cymdeithas Ambiwllans Sant Ioan. Mae Miss Roberts yn swyddog cymorth cyntaf yn ffatri 'Sea Food', Caernarfon.



CAPEL Y BRYNGWYN — Dydd Sul, Hydref 14, cynhaliwyd gwasanaeth Diolchgarwch gan y plant, a thraddodwyd anerchiad dymunol iawn gan Mrs Bowen o Lanfairfechan. Diolch i bawb a gymerodd ran.



John Alan Roberts, Groeslon (ond gynt o Lanberis) — a enillodd y 3edd wobwr am draethawd ar Hanes Chwarel Dinorwig yn Eisteddfod Caernarfon.

CEUNANT

BEDYDDIO — Bore Sul, Medi 30, yn Eglwys Sant Ioan, Waunfawr, bedyddiwyd Paul Bernard Smith, mab bychan Bernard a Ross Smith, Pant Hyfryd, Ceunant. Gwasanaethwyd gan y Rheithor y Canon R. Glyndwr Williams, Caernarfon.

Tan-y-Coed

PRIODAS — Llongyfarchiadau i Mr Gwynfa Pritchard, Garnedd ar ei briodas â Miss Margaret Catherine Thomas, Tyn-y-pant, Rhosgadfan.

Priodwyd Mr a Mrs Pritchard, Medi 8 yng Nghapel Glanrhyd, Llanwnda, y Parchn Dewi Wyn Williams, Dolgellau a W.O. Roberts, Llanrug yn gweinyddu.

Erbyn hyn, mae Mr a Mrs Pritchard wedi cartrefu yng Nghefn Llwyd. Dymuniadau da'r ardal i'r ddau yn eu cartref newydd.

I'R YSBYTY — Y mae Mrs M.E. Shilton, Tan-y-coed Cottage yn Ysbyty'r Borth, Caernarfon, lle y cafodd driniaeth lawfeddygol i'w llygad. Boed iddi adfer golwg buan.

GWELLA — Croeso adre o'r ysbyty i Miss Janice Roberts, Tainewyddion (a fu yn Ysbyty Môn ac Arfon, Bangor) ac i Mrs Meira Pritchard, Garnedd (wedi bod yn y Royal Infirmary, Lerpwl). Balch ydym hefyd o weld Mrs Ceinwen Roberts, Ael-y-bryn a Miss Enid Wynne, Llety Llwyd o gwmpas eto ar ôl eu gwaelled diweddar.

Cafodd Ioan Griffith, ŵyr i Mr a

Mrs Gwilym Rees Hughes, Oerddwr ddamwain ddifrifol yn ddiweddar ac aethpwyd ag ef i Ysbyty Alder Hey, Lerpwl. Da deall ei fod adre'n ôl erbyn hyn. Boed iddo adferiad buan.

DIOLCHGARWCH — Dydd Llun, Hydref 15, cynhaliwyd tri chyfarfod yng Nghapel Tan-y-coed, Cyfarfod Gweddii yn y bore a Mrs Miriam Hughes, 'Rallt Deg, Mr Harry Jeffrey Roberts, Tainewyddion a Mr Glyn Owen, Llys Eryri yn gwasanaethu.

Yn y prynhawn cafwyd gwasanaeth y plant wedi ei drefnu gan y gweinidog y Parch W.O. Roberts. Yn y gwasanaeth cafwyd eitemau gan y plant ac anerchiad gan y gweinidog.

Gwnaeth pob plentyn ei ran yn ganmoladwy iawn a chalonogol oedd gweld y festri'n llawn ar yr achlysur hwn.

Yn yr hwyr y pregethwr gwadd oedd y Parch O.E. Evans, Llanfairpwll; yr oedfa hon yn ddiweddglo hapus i ddiwrnod hapus.

Cyfeilydd y bore a'r hwyr oedd Mrs Violet Blanchard, Y Llythyrdy, a chyfeilydd y prynhawn oedd Mrs Beryl M. Jones, 3 Tan-y-coed.

YSBRYDION ? ATGYFODIAD HARRI'R WYTHFED ?



Pwy ydyn nhw? Trowch i golofn newyddion Penisarwaun am yr ateb!

Dyddiadur y Mis

TACHWEDD

1. Iau: LLANRUG — Noson Goffi Cymdeithas Chwiorydd Capel Mawr. WAUNFAWR — Clwb Gywfai. Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol Sefydliad y Merched yn Neuadd yr Eglwys. LLANBERIS — Dosbarth Nos WEA, "Byd Natur" gyda Mrs Mary V. Jones, B.Sc., yn yr Ysgol Gynradd am 7.00. CWM-Y-GLO — Dosbarth Nos WEA, Canllawiau Ysgrifennu Creadigol yn yr Ysgol Gynradd am 7.30.
2. Gwener: YR ARDAL — Clwb Eryri: Sgwrs gan Mr Iolo Llywelyn. LLANBERIS — Te yr Henoed. WAUNFAWR — Dosbarth Nos WEA, "Gwerthfawrogi Celfyddyd" yn yr Ysgol Gynradd 7 o'r gloch.
3. Sadwrn: LLANBERIS — Cyngerdd yng Nghapel Coch am 7.30 gyda Chor Telyn Teilo a Hogia'r Wyddfa.
5. Llun: BRYNREFAIL — Noson Tan Gwyllt yn y Cae Chwarae. Y noson dan nawdd Clwb Pedwarugain. LLANRUG — Coelcerth a Barbaciwr ar Fferm Rhos Ddu am 6.30. Y noson dan nawdd Pwyllgor y "Majorettes". Dosbarth Nos WEA, "Problemau Cymdeithasol a Gweinyddol Cyfoes" yn yr Ysgol Gynradd am 7.00. WAUNFAWR — Y Gymdeithas Lenyddol — Noson o waith Ceiriog yn Festri Croesywaun. LLANBERIS —

- Cymdeithas Lenyddol Capeli Gorffwysfa, Preswylfa a Chapel Coch. Gyrfa Chwist dan nawdd y St. John's yn y Ganolfan am 7.30. Dosbarth Nos WEA, "Gwerthfawrogi Celfyddyd" yn yr Ysgol am 7.00.
6. Mawrth: LLANRUG — Y Gymdeithas Undebol — Sgwrs a sleidiau "Byd Natur" gan y Parch Huw J. Hughes. DEINIOLEN — Cyfarfod Cyffredinol Cangen Plaid Cymru yn Ystafell y Seindorf am 7.00. Dosbarth Nos WEA, "Agweddau ar Hanes Gwynedd" yn yr Ysgol am 7.00.
 7. Mercher: BETHEL — Theatr Bara Caws yn cyflwyno "Hwyliau'n Codi" yn y Neuadd am 7.00 — y noson dan nawdd Merched y Wawr.
 8. Iau: LLANBERIS — Dosbarth Nos WEA "Byd Natur". CWM-Y-GLO — Dosbarth Nos WEA.
 9. Gwener: WAUNFAWR — Dosbarth Nos WEA, "Gwerthfawrogi Celfyddyd". BETHEL — Sefydliad y Merched — ymweliad â Theatr Astra, Llandudno i weld "Gigi". LLANRUG — Cyngerdd yn Ysgol Brynrefail gyda Chor Caernarfon ac Einir Wyn. Y noson dan nawdd y Seindorf. Bydd bws yn cychwyn o Tan y Coed am 6.45 ac yn galw yn Nolaferon, Cwm-y-glo, Brynrefail a Phenisarwaun.
 10. Sadwrn: BRYNREFAIL — Trip bws i Gaer.
 11. Sul: Sul y Cofio: BETHEL — Gwasanaeth Coffa ger y Gofeb am 10.45.
 12. Llun: BETHEL — Clwb y Rhos. LLANRUG — Dosbarth Nos WEA. WAUNFAWR — Dosbarth Nos WEA "Byd Natur". LLANBERIS — Dosbarth Nos WEA, "Gwerthfawrogi Celfyddyd". Gyrfa Chwist dan nawdd y Clwb Pêl-droed yn y Ganolfan am 7.30.
 13. Mawrth: LLANRUG — Merched y Wawr. DEINIOLEN — Dosbarth Nos WEA.

14. Mercher: LLANBERIS — Clwb y Mamau. BETHEL — Sefydliad y Merched — Ymweliad â'r Coleg, Bangor.
15. Iau: WAUNFAWR — Gyrfa Chwist yn Neuadd yr Eglwys. CWM-Y-GLO — Dosbarth Nos WEA. LLANBERIS — Dosbarth Nos WEA, "Byd Natur".
16. Gwener: LLANBERIS — Te yr Henoed. LLANRUG — Cyfarfod Blynnyddol o Gangen Plaid Cymru yn y Sefydliad Coffa. DEINIOLEN — Noson Goffi yn Ysgol Gwaun Gynfi am 7.00. Yr elw er budd tim Pêl-droed leuenctid y pentref. WAUNFAWR — Dosbarth Nos WEA, "Gwerthfawrogi Celfyddyd".
17. Sadwrn: LLANRUG — Bore Coffi o 10-12 o'r gloch gan ferched Caernarfon a'r Cylch o Blaid Cymru yng Nghanolfan Penrallt.
19. Llun: DEINIOLEN — Merched y Wawr — sgwrs gan Mrs Pat Larsen. LLANRUG — Dosbarth Nos WEA. LLANBERIS — Cymdeithas Lenyddol Capeli Gorffwysfa, Preswylfa a Chapel Coch. Gyrfa Chwist dan nawdd St. John's yn y Ganolfan am 7.30. Dosbarth Nos WEA, "Gwerthfawrogi Celfyddyd".
20. Mawrth: LLANRUG — Y Gymdeithas Undebol — darlith "Hiwmor mewn Du". DEINIOLEN — Dosbarth Nos WEA.
21. Mercher: YR ARDAL — Eisteddfod Ysgol Brynrefail. nawn a nos.
22. Iau: WAUNFAWR — Merched y Wawr. DEINIOLEN — Cymdeithas Lenyddol Capeli Disgwylfa a Cefnywaun. CWM-Y-GLO — Dosbarth Nos WEA.
23. Gwener: PENISARWAUN — Noson Goffi yn yr Ysgol Gynradd. WAUNFAWR — Dosbarth Nos WEA, "Gwerthfawrogi Celfyddyd".
26. Llun: WAUNFAWR — Dosbarth Nos WEA, "Byd Natur". LLANRUG —


- Dosbarth Nos WEA. LLANBERIS Dosbarth Nos WEA, "Gwerthfawrogi Celfyddyd". Gyrfa Chwist dan nawdd y Clwb Pêl-droed yn y Ganolfan am 7.30.
27. Mawrth: PENISARWAUN — Sefydliad y Merched — Cyfarfod Blynnyddol yn Neuadd yr Eglwys am 7.00. DEINIOLEN — Dosbarth Nos WEA.
 29. Mercher: LLANBERIS — Sefydliad y Merched. Dosbarth Nos WEA, "Byd Natur". CWM-Y-GLO — Dosbarth Nos WEA.
 30. Gwener: LLANBERIS — Te yr Henoed. WAUNFAWR — Dosbarth Nos WEA 'Gwerthfawrogi Celfyddyd'.

DYDDIADAU I'W COFIO

RHAGFYR

1. PENISARWAUN — Trip i Gaer.
5. Parti Nadolig Clwb Gywfai.
6. Ffair Nadolig Chwiorydd Capel Mawr, Llanrug. Theatr Bara Caws yn cyflwyno "Hwyliau'n Codi" yn Ysgol Brynrefail.
8. Ffair Nadolig Rhanbarthol Merched y Wawr yng Nghaernarfon.
12. Parti Nadolig Henoed Llanrug.

CROESAIR 35



AR DRAWS:

1. Mae'r un lân yn llawn daioni (5)
2. Perffaith (5)
8. "... 'mryd, a gwared fi Rhag culni o bob rhyw," (5)
9. Darn o ddefnydd cul a hir (5)
10. Enillion (5)
11. Pleidleisio (5)
12. Ochr (2)
13. Niweidiol (7)
17. Aeth hwn i fyny o 8 i 15 yn ddiweddar! (3)
18. Ebych! (3)
20. Goruchwyliwr (7)
24. Preswylfa (2)
26. Darn o gerddoriaeth i un (5)
27. Gwastraffu (5)
28. Ymdrechu (5)
29. 'Roedd digon o benwaig yma ar un adeg (5)
30. Ffoi (5)
31. Y weithred o iro (5)

I LAWR:

1. Afonig (7)
2. Stiwl (8)
3. To Ystafell (6)
4. Ystafell i gadw bwyd a llestri (6)
5. Rhinwedd (6)
6. Anfonwyd hwn i 'Ardd' Glandŵr. (4)
7. Nain (5)
14. Mae hwn gan bawb (3)
15. "Un dafn o'i ... sy'n ... i mi" (3)
16. Hap anifail !! (3, 5)
19. "A llonydd gorffenedig Yw llonydd y" (3, 4)

21. Bach o oedran (6)
22. Rhwystr (6)
23. Adfywiad (6)
24. Ni feddaf le ... ohono" (5)
25. Ceisio dal (4)

ATEBION CROESAIR RHIF 34:

AR DRAWS:

1. Blawd. 5. Priod. 8. Raser. 9. Argae. 10. Ysigo. 11. Symud. 12. Lli. 13. Loetran. 17. Gwe. 18. Eog. 20. Dwyrain. 24. Si. 26. Barwn. 27. Gwawr. 28. Teios. 29. Ysgall. 30. Rownd. 31. Ennyn.

I LAWR:

1. Brawddeg. 2. Amgyffred. 3. Dresel. 4. Y Simdde. 5. Pryder. 6. Iait. 7. Diogi. 14. Oer. 15. Toi. 16. Newyddion. 19. Gwell sŵn. 21. Ysbryd. 22. Atregu. 23. Nantlle. 24. Segur. 25. Carw.

Ni dderbyniwyd cynnig cywir i Groesair Rhif 34

Cyfrifir y llythrennau canlynol fel UN llythyren: CH, DD, FF, NG, LL, PH, RH, TH.

Gwobr o £1 i'r ateb cywir cyntaf a dynnir wedi i'r holl gynigion ddod i law.

Anfoner y cynigion fel arfer i:
Myrddin Owen,
32 Stryd Fawr,
Llanberis.

Enw

Cyfeiriad

CHWARAEON

YN ÔL I'R YSGOL

Ar ôl cyfnod o ddeugain mlynedd, daeth y tlysau a welir yn y darlun, sef tair cwpan hardd, yr wythnos diwethaf, yn ôl i feddiant Ysgol Brynrefail. Llawenydd sy'n gymysg â pheth digalondid er hynny, fu'r derbyn, gan mai'r trasiedi a ddaeth i ran teulu o Lanberis fu'n gyfrifol am yr achlysur.

Eiddo Dilys Price, Islwyn House, Llanberis, oeddynt yn wreiddiol, ac fe'u henillwyd ganddi ar gaeau chwarae'r ysgol pan yn ddisgybl yno yn y cyfnod o 1935 i 1939. Rhyw dipyn o domboi, yn ôl pob hanes ydoedd a bu ei gyrfa yn yr ysgol, yn academig ac ar y cae chwarae'n hynod o lewyrchus. Methais â dod o hyd i'w record academiaidd yno, ond mae'r ffaith iddi gael ei derbyn i'r Coleg Normal i'w hyfforddi fel athrawes yn tystio nad ar y caeau chwarae yn unig y bu'n gwario'i hegri.

Erys cofnodion o'r holl gyfarfodydd mabolgampau ers 1933, yn ddiogel yn nwylo Dic Parry, yr athro ymarfer corff presennol, ac wrth fodio drwy'r rhain hawdd yw gweld sut y daeth y tlysau'n eiddo iddi.

Yn 1935 ei henwi'r gyntaf, yn ennill y ras dros 80 llath, y ras sgipio, y ras datws, (beth bynnag oedd honno!) a'r naid uchel i'r genethod iau. Daeth hefyd yn drydedd yn y ras dair coes, ynghlwm wrth Anna Lewis. Daeth yr holl bwyntiau a enillodd i'w thŷ, sef




Elidir, â'r Victrix Ludorum iddi yn ei hail flwyddyn yn yr ysgol.

Ni fu'n llawn mor llwyddiannus yn 1936, ond enillodd eto'r naid uchel, y ras daircoes (efo'r un bartneres) a daeth yn drydedd yn y ras 100 llath. Yn 1937 a 38 y hi oedd orau ar y naid uchel, y ras sgipio a'r ras daircoes. Yn 1939 daeth y Victrix Ludorum iddi eto drwy rinwedd y pwyntiau a gasglodd yn ennill y ras 100 llath, y ras daircoes, y ras 220 llath, y ras sgipio a'r naid uchel, ac ar ei blwyddyn olaf yn 1940, y hi, ar ôl ennill ei chystadlaethau arferol fu'n derbyn y cwpan chwaraeon fel capten ei thŷ ar ran Elidir.

Tra'n ddisgybl yn yr ysgol, oddeutu deunaw oed, daeth damwain digon diniwed yr olwg i'w rhan. Disgynnodd oddi ar gadair yn ei chartref, ac er i'r briw yn ei hochr barhau i'w phoeni o dro i dro ni roddwyd fawr o sylw iddo. Yna, tra'n fyfyrwraig ar ei hail flwyddyn, yn y Normal, credir iddo droi'n TB arni, ac yn ysbyty Gobowen y bu farw o'r aflwydd, yn llances ugain oed.

Bu'r tlysau ym meddiant ei mam hyd at flwyddyn yn ôl, pan fu hithau farw, a'u hewyllysio i Mrs Owen, Bryn Ifor, Llanberis. Dymuniad Mrs Owen yw y dylent gael eu dychwelyd i'r ysgol, ac iddi hi mae diolch y Prifathro, yr athrawon a'r plant am gwblhau'r cylch yn hanes Dilys Price a'r ysgol.

DILYS PRICE 1922-1942



LLANRUG UNITED - TÎM Y DAUDDEGAU

Daeth llythyr i law oddi wrth Mr W.D. Williams (Now E.B. fel y cefais janiatâd i'w alw) o Lanberis yn enwi'r ten dîm pêl-droed a ddangoswyd yn Eco'r mis diwethaf efo Castell Bryn Bras yn y cefndir.

Yn sefyll o'r chwith i'r dde: Mr Bertie Williams, Llew Evans (Cwm), Stewart (Caergybi), Wil Jones Bwlch (Cwm), a Teddy Buck (Llanberis).

Yn yr ail res: Dafydd Davies (Llanberis), Now Mor (Caernarfon), Coch Bach Brynrefail (Wil Edwin oedd

ei enw).

Rhes Flaen: Hugh Parry (Cwm), Hugh Daniel Williams (Cwm), Walter Jones (Caernarfon), Harry Williams (Cwm), a Wil John Davies (Llanberis). [neb o Lanrug sylwer!]

Cred Mr Williams mai ar achlysur ennill Pencampwriaeth Gwyrfa'i y tynnwyd y llun, ond ni wyddys iawn yr union flwyddyn. Y maent oll, ar wahân i Dafydd Davies a Choch Bach Brynrefail (sydd ar hyn o bryd yn yr America) wedi ein gadael.

PÊL-DROED

'Dydi pethau ddim yn mynd mor esmwyth ag arfer i'n timau pêl-droed, ac efallai'n wir mai sylwadau ffraeth gohebydd lleol y 'Cymro' (yn fy nghyhuddo i o gael amser rhy braf) sydd wedi rhoi'r 'jinx' arnynt. Mae'n wir fod y ddau dîm yno, o gwmpas pen tabl y Gynghair, ond am y tro cyntaf ers blyneddau mae timau eraill, sef Mountain Rangers a Chaernarfon, yn hawlio eu lle ar yr un copa.

Mae Llanberis allan o Gystadleuaeth cwpan Gyfryngol Gogledd Cymru, colli i Fethesda yn ail chwarae'r ail rownd, ond erys diddordeb y ddau glwb yn y Cwpan Iau; buddugoliaeth hawdd o 10 gol i 2 i Lanrug dros Silver Bay, o Sir Fôn ac i Lanberis dros Shotton Youth (gweler isod.).

Yn y Gynghair, un pwynt ddaeth i Lanberis, o'r Oval yn eu gêm yn erbyn ail dim Caernarfon, ond y Sadwrn diwethaf (27.10.79) yn y Cwpan Iau 'doedd dim amheuaeth o gwbl am y canlyniad.

Llanberis 5 Shotton Youth 1
Tîm ieuanc - pob aelod ynddo dan

TABL Y GYNGHRAIR	CH	E	CYF	COLLI	OB	YE	PT
Mountain Rangers	11	9	1	1	33	13	19
Llanrug	12	8	2	2	32	16	18
Caernarfon Reserves	12	6	4	2	30	18	16
Llanberis	9	6	3	0	28	9	15



TLWS ARALL I DDEINIOLEN

Yn dilyn eu llwyddiant y tymor diwethaf yng nghystadlaethau'r clybiau ieuencid, cyflwynwyd Tarian Rhanbarth Gorllewin Gwynedd i Glwb Ieuencid Deiniolen gan y Swyddog Ieuencid Rhanbarthol, Mr Richard Parry. Yn y llun gwelir rhai o aelodau'r clwb gyda'r tlysau a enillwyd yn ystod y tymor. Aeth tîm tenis bwrdd merched hynaf y clwb ymlaen i gynrychioli Gwynedd yn Cymrusports yn Aberfan.

Yn y llun gwelir Mr Parry'n cyflwyno'r cwpan i Marion Williams. Mae Mr Gwilym Owen, (Bert), arweinydd y Clwb yn sefyll ar y chwith.

SNWCER

Yn dilyn fy apêl y mis diwethaf am ychydig o hanes Clybiau Snwcer, Dartiau a Badminton yr ardal daeth un cyfraniad i law, sef gweithgareddau'r mis o Glwb Snwcer Llanrug, drwy law Clive Griffiths. Fy nioch iddo, a gobeithio y bydd yn anfon pwt yn fisol o hyn allan.

Ble mae'r gweddill ohonoch? 'Dydw i ddim yn addo cynnwys yr oll o'ch cynnyrch yn fisol, mae'n dibynnu'n hollol ar y gofod ar gael, ond sicrhaf chwi i gyd eich crybwyllir os daw'r wybodaeth i law.

Mae 'Duon' y Clwb yn adran A, Cynghrair Bangor a'r Cylch, ac yn hanner ucha'r tabl. Yn ystod y mis daeth 5 buddugoliaeth i'nt gan golli

ugain oed - a gêm plant yn erbyn dynion oedd hi fel y digwyddodd pethau. Yn wir, 'rwy'n siŵr fod merch hynaf Dic Parry, un o chwaraewyr Llanbêr yn hŷn na hanner hogia Shotton. 'Doedd dim siawns ganddynt, tîm a gurwyd ym mhob agwedd o'r gêm; ac yn wir prif ddiddordeb llawer o'r gwylwyr am gyfnodau helaeth oedd dyfalu ystyr y llythrennau TSB oedd ar eu crysau nodedig. Daeth Tîm Slo' Bach, Tîm Smalio Bach a Thîm Sala'r Bencampwriaeth yn agos i'w gwobrwyo. Iwan Evans, John Pritchard, Einion Holland (2), a Ray Harding fu'n gyrru'r wers adref.

Gêm gyfartal â Mountain Rangers a cholli yn erbyn Caernarfon Utd. oedd hanes dwy gêm gynta'r mis i Lanrug, ond yn eu tair olaf, a Dic Owen wedi dychwelyd i sgorio saith gwaith daeth buddugoliaethau yn erbyn Pwllheli a Silver Bay. Y Sadwrn diwethaf gwnaed peth argraff ar dabl y Gynghair a daeth dau bwynt iddynt gan ail dîm Caernarfon, Peter Roberts a Dic Owen (2) yn sgorio.

ond un. Eu chwaraewyr mwyaf llwyddiannus fu Tony Brobyn a John Parry, ac mae'r ddau ynghyd â Keith Jones a Clive drwodd yn ail rownd y Bencampwriaeth Unigol y Gymghair. Mae John a Clive hefyd yn ail rownd y cystadleuaeth i barau.

Mae'r gleision ar eu tymor cyntaf yn adran B, a hyd yma ni chollasant yr un gem. Mae pob aelod o'r tîm hyd yma'n ddiguro yn y cystadlaethau sengl a dwbl; enillwyd dwy o gemau'r mis ganddynt gan ddod yn gyfartal yn y gweddill ac maent yn ail rownd dwy gwan.

Beth wnaethoch chwi yn ystod y mis, glybiau Deiniolen a Bethel?